**DRAFFT**

**Drafft llawn yw hwn sydd angen gwaith golygu, gwirio a chysoni pellach**

# Cymraeg 2050

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

# CYNNWYS


1. RHAGAIR Y GWEINIDOG
2. CYFLWYNIAD
3. SAIL CYSYNIADOL AC EGWYDDORION
4. CYRRAEDD Y MILIWN
5. TAIR THEMA STRATEGOL
6. THEMA 1: CYNYDDU NIFER Y SIARADWYR CYMRAEG
7. THEMA 2: DEFNYDDIO’R GYMRAEG
8. THEMA 3: CREU AMODAU FFAFRIOL: HINSAWDD AC ISADEILEDD


DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

# RHAGAIR Y GWEINIDOG

Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl, ac yn rhan annatod o'n bywydau bob dydd. Ein huchelgais ni fel Llywodraeth yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Does dim dwywaith fod hon yn uchelgais heriol, ond rwy'n grediniol fod angen i ni osod uchelgais o'r fath os ydym am wneud gwahaniaeth gwirioneddol i sefyllfa'r Gymraeg.

Rwy'n glir mai ein cyfrifoldeb ni fel Llywodraeth yw gosod cyfeiriad ac arwain y gwaith. Mae gan y Llywodraeth hon yr ewyllys a'r ymroddiad i wneud hynny. Ond mae hefyd yn hanfodol i ni i gyd fel cenedl gyfan berchnogi'r her.

Ni all Llywodraeth fynnu bod rhiant yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i blentyn. Ni all fynnu bod plant yn chwarae gyda'i gilydd yn Gymraeg. Ac ni all fynnu bod rhywun yn defnyddio'r Gymraeg yn y swyddfa bost.

Un neges glir yn y ddogfen hon yw bod angen i ni gyrraedd sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen hollol naturiol o bob agwedd ar fywyd bob dydd. Os ydym am wireddu hynny, mae'n rhaid i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r cynllun hwn – boed yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn siaradwyr Cymraeg sy'n gyndyn o ddefnyddio'r iaith, yn siaradwyr newydd sydd wedi dysgu'r iaith, neu yn bobl sydd ddim yn cyfri eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Mae gan bawb ran i'w chwarae, ac rwyf am i bawb gyfrannu.

Gyda'n gilydd, gallwn dyfu'r Gymraeg a chreu cenedl wirioneddol ddwyieithog.

**Alun Davies AC**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

# CYFLWYNIAD

## Ein gweledigaeth: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

**Y flwyddyn 2050: Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, gyda nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn. Mae'n hawdd ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd, ac ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati a gwerthfawrogiad o'i chyfraniad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd.**

## Gwireddu'r weledigaeth

Mae ateb yr her o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol. Mae angen gwthio'r ffiniau a chymryd camau uchelgeisiol fel bod mwy o bobl yn dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Strategaeth hon yn ein symud ymlaen i'r cam nesaf yn ein datblygiad ieithyddol fel cenedl, ac yn adeiladu ar y sylfeini sydd eisoes yn eu lle.

Rydym wedi adnabod tair thema strategol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth, sef:


1. **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**
   - Trosglwyddo'r Gymraeg
   - Y blynyddoedd cynnar
   - Addysg statudol
   - Addysg ôl-statudol
   - Gweithlu ac adnoddau addysg

2. **Defnyddio'r Gymraeg**
   - Arferion ieithyddol
   - Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
   - Y gweithle
   - Gwasanaethau

3. **Creu amodau ffafriol: Isadeiledd ac Hinsawdd**
   - Cymdeithas ac economi
   - Cymru a'r byd
   - Newid ymddygiad ieithyddol
   - Cynllunio ieithyddol
   - Seilwaith y Gymraeg
   - Deddfwriaeth

Er mwyn llwyddo i wireddu'r weledigaeth bydd angen gweithredu o dan y dair thema, a deall y gyd-berthynas rhyngddynt.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017




## Cyd-destun

Nid cychwyn y daith yw'r strategaeth hon. Mae cynnydd sylweddol wedi digwydd o ran cefnogaeth lywodraethol i'r Gymraeg dros y chwarter canrif diwethaf. Bellach, mae gan y Gymraeg statws swyddogol ac mae deddfwriaeth yn ei lle sy'n rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau Cymraeg.

Mae sail statudol hefyd i'r gyfundrefn o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a thrwy gynnwys "Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu" fel un o'i 7 nod llesiant, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 eisoes wedi gosod y sylfaen gyfreithiol ar gyfer ystyried dyfodol y Gymraeg. Mae'r strategaeth hon yn diffinio beth yw'r 'ffyniant' a grybwyllir ar wyneb y Ddeddf ac yn ymateb i'r amcan llesiant cenedlaethol:

> ***Creu'r amodau i bobl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle***

Mae Symud Cymru Mlaen yn gosod yr uchelgais o weld miliwn o siaradwyr erbyn 2050 sy'n atgyfnerthu'r cyswllt rhwng ffyniant a cyrraedd miliwn o siaradwyr. Nod Symud Cymru Mlaen yw sicrhau bod polisïau yn cyd-gordio er lles y genedl gyfan i greu gwlad lle gall pawb wireddu eu potensial drwy'r gyfundrefn addysg, be bynnag bo'u cefndir; bod cymunedau a'r wlad yn manteisio ar hyn i greu economi gref; adeiladu cyfundrefn iechyd sydd yn gwarchod y rhai sydd angen cymorth ac yn ysgogi pawb i warchod eu hiechyd eu hunain; a, chreu seilwaith gadarn sy'n hwyluso trafnidiaeth a gallu digidol o fewn a rhwng cymunedau a rhanbarthau i ddod a ni yn nes fel cenedl. Mae'r Gymraeg yn linyn arian drwy Symud Cymru Mlaen.

## Strategaeth genedlaethol

Mae hon yn strategaeth i Gymru gyfan, ac rydym am i bob rhan o'r wlad rannu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr.

Tra bo'r potensial am dwf yn y niferoedd o siaradwyr y Cymraeg yn uwch yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canrannau isel o siaradwyr Cymraeg, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

cynnal ein cymunedau Cymraeg fel llefydd sy’n hwyluso defnydd y Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd.

Ein nod ym mhob rhan o’r wlad yw creu amodau ffafriol sy’n cefnogi caffael a defnydd sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd mewn trosglwyddo iaith mewn teuluoedd, cyflwyniad cynnar i’r Gymraeg i bob plentyn, system addysg sy’n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb, a mwy o werthfawrogiad o sgiliau iaith yn y gweithle. Ar yr un pryd, rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl i ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gweithle, ac wrth dderbyn gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd ymateb i hyn yn golygu ystyried pob ardal ar sail ei chyfansoddiad ieithyddol, a chynllunio er mwyn taro’r cydbwysedd priodol yn lleol. Er enghraifft, mewn cymunedau Cymraeg, yr her yw sicrhau fod gan bobl swyddi o ansawdd da, gyrfaoedd deniadol a chartrefi er mwyn aros, neu ddychwelyd, i’r cymunedau hynny. Mewn ardaloedd eraill, bydd hybu’r defnydd o’r Gymraeg fel iaith y gweithle a busnes yn dod yn gynyddol bwysig.

## Diffinio siaradwr Cymraeg

Mae’r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 yn arwain yn anorfod at gwestiwn ynghylch yr hyn sy’n diffinio ‘siaradwr’, hynny yw, pa mor hyfedr ddylai rhywun fod cyn gallu cael ei ystyried yn ‘siaradwr Cymraeg’. Ein ffon fesur ar gyfer y miliwn yw ffigurau’r Cyfrifiad, sy’n deillio o hunan-asesiad gan unigolion. Yn ôl y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, roedd 562,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru[1].

Bydd llawer o ffactorau yn debygol o effeithio ar sut y bydd unigolion yn asesu eu hunain o ran eu sgiliau iaith. Er enghraifft, mae tystiolaeth yn awgrymu fod cyswllt cryf rhwng hyfedredd yn y Gymraeg ac amlder defnydd ohoni. Ein nod drwy’r strategaeth hon yw creu’r amodau lle bydd gan bawb yng Nghymru fynediad at y Gymraeg, y bydd pob siaradwr, beth bynnag bo’u lefel, yn dewis defnyddio’i sgiliau Cymraeg, ac yn cael anogaeth a chymorth i ddatblygu ei sgiliau ymhellach os yw’n dymuno gwneud hynny, mewn awyrgylch gynhwysol a chadarnhaol.

## Strategaeth hirdymor

Mae gosod targed hirdymor yn adlewyrchu’r ffaith nad yw camau i gynyddu nifer siaradwyr yn llwyddo dros nos, a bod yn rhaid wrth gynllunio ieithyddol

[1] Mae ffynonellau eraill hefyd yn cynnig amcangyfrifon am nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae’r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth yn amcangyfrif bod tua 27 y cant (sef 843,700) o bobl tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn amcangyfrif bod tua 23 i 24 y cant (sef 607,000) o bobl 16 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Ni wyddom pam yn union fod cymaint o wahaniaeth rhwng yr amcangyfrifon hyn, ond mae gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr arolygon a’r Cyfrifiad eu cynnal yn debygol o fod wedi effeithio ar y canlyniadau.

DRAFT - CYFRINACHOL 2017

hirdymor er mwyn cymryd y camau breision sydd eu hangen.  Mae’r dull hwn yn caniatáu i ni edrych ar y darlun mawr, a chanolbwyntio ar y camau gwirioneddol strategol a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i’r iaith ymhen tri degawd.

Serch hynny, tra bo’n gweledigaeth yn un hirdymor, a nifer y siaradwyr yn rhywbeth y gellir ei fesur yn ystyrlon fesul cenhedlaeth neu fwy, rhaid i ni weithredu a gosod y seiliau nawr, a rhaid i’r gweithredoedd hynny adlewyrchu maint ein huchelgais.

Bydd hyn oll yn golygu creu polisïau manwl newydd sy’n codi’u golygon at y miliwn, gan dargedu meysydd lle mae wir eu hangen, a sicrhau eu bod yn gweithio tuag at y nodau hirdymor a nodir yn y strategaeth hon.

Rhaid cydnabod y bydd blynyddoedd cyntaf y strategaeth hon yn gweld camau’n cael eu cymryd i roi’r sylfeini yn eu lle er mwyn caniatáu i gynnydd ddigwydd. O wneud hynny, rydym yn rhagweld y gwelir y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg tua diwedd oes y strategaeth.

## Sut byddwn yn gweithredu’r strategaeth

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae gofyn ein bod yn defnyddio gwahanol ddulliau gweithredu, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau dan sylw. Bydd rheini’n cynnwys:

- arweiniad cadarn a defnyddio’n dylanwad er lles y Gymraeg;
- cefnogaeth ariannol i hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg;
- deddfu i osod seilwaith gyfreithiol cadarn i’r iaith;
- arwain drwy esiampl yn ein defnydd a’n hymagwedd tuag at y Gymraeg.

Ein blaenoriaethau ar gychwyn gweithredu’r strategaeth yw:

1. Creu a gweithredu polisi addysg cyfrwng Cymraeg
2. Sicrhau fod gan bobl ifanc sgiliau dwyieithog er mwyn cefnogi economi sy’n ffynnu
3. Trawsnewid y tirwedd digidol Cymraeg
4. Diwygio’r fframwaith ddeddfwriaethol
5. Rhaglen Genedlaethol sy’n sicrhau fod y genedl gyfan yn deall dwyieithrwydd
6. Prif ffrydio’r Gymraeg i holl weithgareddau Llywodraeth Cymru

Byddwn yn creu cynlluniau gweithredu ar gyfnodau penodol fydd yn adlewyrchu newidiadau yn nhirwedd ieithyddol, cymdeithasol a pholisi Cymru yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn adolygu’r Strategaeth hon yn achlysurol, yn sgil gwaith monitro a gwerthuso.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

Wrth weithredu’r strategaeth, byddwn yn dilyn rhai egwyddorion craidd. Amlinellir yr egwyddorion hynny dros y tudalennau nesaf.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

# SAIL CYSYNIADOL AC EGWYDDORION

Er mwyn cyrraedd sefyllfa erbyn 2050 lle bydd miliwn o siaradwyr yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg mae gofyn am weithredu dwys, nawr ac yn y dyfodol, i:

- gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- cynyddu ac ehangu'r cyfleoedd iddynt ddefnyddio eu sgiliau
- creu hinsawdd lle bydd pobl eisiau defnyddio'r Gymraeg

Mae'r amodau sy'n dylanwadu ar allu ac awydd siaradwyr i defnyddio eu sgiliau yn gydblethiad cymhleth o ffactorau. Gwelwyd eisoes sut mae model damcaniaethol y diweddar Joshua Fishman ar gyfer adfywio iaith, a modelau pellach a esblygodd wedi hynny, wedi darparu sail ar gyfer deall deinameg defnydd iaith (Grin a Moring 2002; Darquennes 2007)[2]. Cyflwynodd Miquel Strubell (Strubell 2011) ei fodel Olwyn Catherine i ddangos y gydberthynas rhwng pedwar maes:

- gallu ieithyddol
- y defnydd cymdeithasol a wneir o'r iaith
- y  cynnyrch a'r gwasanaethau sydd ar gael yn yr iaith a'r galw amdanynt
- a'r cymhelliant i ddysgu'r iaith a'i defnyddio.

Yr egwyddor sylfaenol a gyflwynir ganddo yw fod hyfywedd iaith yn ddibynnol ar y gydadwaith rhwng nifer o elfennau sydd, yn eu tro, yn sbarduno cynnydd. Ymgais yw'r olwyn i ddarlunio mewn modd syml a hygyrch y gyd-ddibyniaeth rhwng yr elfennau hyn. Er gwaethaf y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag unrhyw fodel sgematig o'r fath, mae'r olwyn yn parhau i gynnig man cychwyn defnyddiol wrth i ni ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer seilwaith cynaliadwy i'r Gymraeg.

Ar yr un pryd, mae llunio a gweithredu strategaeth ar gyfer y Gymraeg yn y flwyddyn 2050 yn gofyn am ddealltwriaeth o sut mae siaradwyr yn defnyddio ac yn ymdrin ag iaith heddiw, ac ystyriaeth o sut maen nhw'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol.  Mae angen i ni fod yn barod i addasu ein dulliau polisi cynllunio iaith i adlewyrchu'r newidiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sy'n nodweddu'r Gymru gyfoes. Nid oes gennym ddarlun manwl o sut bydd pobl yn byw eu bywydau erbyn y flwyddyn 2050, ond y tebygolrwydd yw y bydd y datblygiadau rydym wedi eu gweld dros y degawdau diwethaf yn parhau i drawsnewid ein bywydau bob dydd. Gwelwn sut mae globaleiddio, mudoledd, a dehongliadau mwy amrywiol o gysyniadau megis yr uned deuluol, 'cymdogaeth' a 'chymuned' wedi arwain at newidiadau pellgyrhaeddol. Gwelwn hefyd sut mae datblygiadau ym maes technoleg yn

[2] Gweler Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-language-strategy-evaluation/?lang=cy

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

cynnig dulliau newydd o gyflawni ein gwaith a chyfathrebu â'n gilydd. Ar yr un pryd, nid yw'r newidiadau hyn wedi disodli yn llwyr arwyddocâd a phwysigrwydd cymunedau sydd wedi eu diffinio gan ddaearyddiaeth, rhwydweithiau cymdeithasol sy'n seiliedig ar gyfathrebu wyneb yn wyneb, a'r aelwyd fel canolbwynt i fywyd teuluol.

Wrth i ni ddatblygu ein rhaglen hirdymor ar gyfer y Gymraeg, felly, ein nod yw sicrhau bod ein hamcanion a'n dulliau gweithredu yn arddangos dealltwriaeth o sut mae siaradwyr yn defnyddio iaith ac yn ymwneud â'i gilydd, a hefyd bod ein gweithgaredd cynllunio iaith yn adlewyrchu'r esblygiad sydd wedi bod ym maes cymdeithaseg iaith.

Mae ymchwilwyr cymdeithaseg iaith wedi rhoi sylw cynyddol yn ystod y ddau ddegawd diwethaf i sut y mae siaradwyr yn defnyddio eu hadnoddau ieithyddol – ac yn diffinio eu hunaniaeth ieithyddol – mewn amrywiaeth o rwydweithiau, lle mae'r ffiniau yn aml yn aneglur (Heller 2011, Pennycook 2010; Pietikäinen 2013; Martin-Jones a Martin 2017).

Mae eu dehongliad o siaradwyr fel bod yn 'symudol' ac yn hyblyg yn codi nifer o gwestiynau allweddol ynghylch ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg fel iaith hyfyw, mewn cyd-destunau ieithyddol sy'n aml yn afreolaidd neu yn amlhaenog.

## Cwrs Bywyd

Mae'r strategaeth yn cydnabod cyfraniad allweddol trosglwyddo iaith yn y cartref i hyfywedd y Gymraeg yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod hefyd na ellir sicrhau cynnydd yn nifer y siaradwyr ar y raddfa angenrheidiol drwy gynyddu cyfraddau trosglwyddo yn unig. Mae cyfraniad siaradwyr sy'n caffael y Gymraeg y tu allan i'r cartref yn gwbl allweddol i lwyddiant ein strategaeth. Mae creu'r amodau cywir i ddysgwyr newydd o bob oedran ddatblygu a defnyddio eu sgiliau yn amcan creiddiol – o'r blynyddoedd cynnar, drwy bob cam o addysg orfodol ac ôl-16, hyd at gyfleoedd i oedolion ddysgu'r Gymraeg.

Mae gwaith ymchwil dros y blynyddoedd diwethaf ar *mudes* ieithyddol, neu'r 'addasiadau mewn ymddygiad ieithyddol' ar gamau tyngedfennol ym mhrofiadau 'siaradwyr newydd', yn cynnig tystiolaeth gyfoethog i ni o ran y gydberthynas rhwng taith bywyd a thaith ieithyddol unigolion (O'rourke, Pujolar *et al.* 2015).

Wrth gyflwyno ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg, felly, pwysleisiwn mai siaradwyr Cymraeg sy'n rhoi ystyr a bywyd i'r iaith. O'r herwydd, taith ieithyddol siaradwyr drwy wahanol gyfnodau eu bywyd sy'n rhoi siâp ac ystyr

DRAFT - CYFRINACHOL 2017

i'r strategaeth hon. Wrth fabwysiadu'r model 'cwrs bywyd', rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar ddeall beth yw'r cerrig milltir sy'n diffinio taith ieithyddol unigolion, a sut mae cyfleoedd i gaffael neu ddysgu iaith, a chyfleoedd i'w defnyddio, yn cydblethu ac yn cronni dros amser.

Mae'r dull 'cwrs bywyd' yn [cael ei gysylltu yn bennaf â meysydd yn ymwneud â iechyd a llesiant, er enghraifft heneiddio neu iechyd cyhoeddus (Billari 2001; Ben-Shlomo a Kah 2002; Mayer 2009). Ar sawl lefel mae'r cysyniadau sy'n sail i'r damcaniaethau hyn yr un mor berthnasol i'r maes polisi cynllunio iaith. Mae'n] cynnig ffordd o ddehongli taith ieithyddol unigolyn mewn cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol. Mae hefyd yn cynnig ffordd o ddeall sut y gall cyfuniadau o ddigwyddiadau a phenderfyniadau ddiffinio profiad bywyd ieithyddol unigolion. Wrth edrych ar y daith ieithyddol yng ngoleuni'r ddamcaniaeth cwrs bywyd gwelwn fod yr elfennau canlynol yn arbennig o berthnasol:

- dylanwad y cyd-destun hanesyddol a daearyddol ar brofiadau a chyfleoedd
- adnabod 'cyfnodau pontio' allweddol
- cydnabod amrywiaethau yn y modd mae gwahanol unigolion yn ymateb i amgylchiadau
- cydgysylltiad rhwng unigolion a'u teuluoedd a'u rhwydweithiau o berthnasau
- sut mae'r gorffennol yn siapio'r dyfodol h.y. perspectif tymor hir, ac effaith gronnol profiadau
- unigolion fel chwaraewyr gweithredol sy'n gallu gwneud penderfyniadau a dewisiadau, a gosod amcanion ar gyfer eu gweithredoedd eu hunain.

Nodwedd arall o'r ddamcaniaeth 'cwrs bywyd' sy'n haeddu sylw yw'r un sy'n ymwneud â'r elfen risg – naill ai drwy 'bwyntiau tyngedfennol' lle gallai risgiau penodol arwain at newidiadau negyddol parhaol, neu wrth i unigolion ddod wyneb yn wyneb â risgiau dros amser, gydag effaith gronnol y canlyniadau hyn yn arwain at sefyllfaoedd neu ddeilliannau negyddol.

Yng nghyd-destun caffael, defnyddio a rhannu'r Gymraeg gydag eraill, mae hyn yn golygu cynllunio bwriadus er mwyn sicrhau fod yr amodau gorau posibl mewn lle i:

- gefnogi siaradwyr wrth iddynt ddechrau datblygu eu sgiliau ieithyddol – boed gartref, drwy'r gyfundrefn addysg neu'n hwyrach yn eu bywydau
- hwyluso eu gallu a'u parodrwydd i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg, gyda'u teuluoedd, yn eu rhwydweithiau cymdeithasol, gyda'u cydweithwyr ac wrth gyrchu gwasanaethau
- adnabod yr amgylchiadau a'r ffactorau sydd fwyaf tebygol o wanhau eu cyswllt gyda'r iaith neu leihau eu parodrwydd i'w defnyddio
- arfogi siaradwyr i wneud penderfyniadau a fydd yn cefnogi eu defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol.

DRAFT - CYFRINACHOL 2017

Yr her i ni fel Llywodraeth yw deall yn well y ffordd y mae pobl yn defnyddio’r iaith, dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir ganddynt ar bwyntiau allweddol yn eu bywydau (ee wrth symud o addysg i’r gweithle), a hyrwyddo presenoldeb sefyllfaoedd a gofodau sy’n ei gwneud yn hawdd i bobl ddewis defnyddio’r iaith.

## Cymunedau / Y gymdogaeth

Mae dehongli siaradwyr fel unigolion symudol a hyblyg hefyd yn codi cwestiynau am natur y gymdeithas y maen nhw’n aelodau ohoni, ac am oblygiadau hynny o safbwynt y Gymraeg.

Mae’r cyd-destun cymdeithasol yn fframwaith pwysig ar gyfer defnydd. Er enghraifft, os oes rhagor o siaradwyr iaith benodol yn byw mewn ardal ddaearyddol, mae tebygolrwydd uwch o gael rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio’r iaith honno wrth gyfathrebu o ddydd i ddydd.

Serch hynny, mae’r ddealltwriaeth o arwyddocâd dwysedd siaradwyr hefyd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chydnabyddiaeth bod hon yn un elfen bwysig mewn darlun cymdeithasol cymhleth. Yn y gorffennol y dueddiad oedd gweld pobl fel bod yn statig, yn aros yn eu cymunedau daearyddol a bod dwysedd poblogaeth, o’r herwydd, yn bwysicach na dim arall. Ond bellach rhaid derbyn bod pobl yn byw eu bywydau yn seiliedig ar nifer o ffactorau cymdeithasol gwahanol, gyda thueddiadau presennol yn tynnu pobl i sawl cyfeiriad.

O’r herwydd, am fod patrymau bywyd modern yn dal i newid ac y byddant yn parhau i newid yn ystod oes y strategaeth hon, rhagwelwn y daw mannau lle mae pobl yn treulio cyfran o’u hamser yn gynyddol bwysig, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i swyddfeydd, gweithleoedd, clybiau diddordeb, mannau cymdeithasol newydd, a rhwydweithiau electronig o bob math. Dyma’r mathau o sefyllfaoedd y gallwn eu targedu, am eu bod yn fannau lle mae pobl yn fwy “statig” nag y maen nhw yn eu cymunedau preswyl. Rhaid i gynllunio ieithyddol fod yn ddigon hyblyg i ymateb i’r tueddiadau hyn.

### Cynnal cymunedau Cymraeg

Mae ardaloedd lle mae dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg yn parhau’n ganolog i’n gweledigaeth, am mai dyma’r lleoedd yng Nghymru sy’n creu’r hinsawdd mwyaf ffafriol i feithrin siaradwyr Cymraeg.

Dyma lle mae yna gysylltiad rhwng y Gymraeg a’r tir, ac mae angen cynnal y cysylltiad hwnnw. Dyma lle mae’n naturiol gweld a chlywed y Gymraeg, ac sy’n cynhyrchu’r mwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl.  Ac o dderbyn bod symudoledd yn anorfod, hyd yn oed os bydd unigolion yn symud o’r

DRAFFT-CYFRINACHOL 2017

cadarnleoedd byddant yn parhau i allu cyfrannu at gymdeithas Gymraeg a gweithio a darparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

Yr hyn sy'n nodweddu'r ardaloedd hyn yw eu bod yn wledig eu natur, gyda'u heconomïau yn dibynnu i raddau helaeth ar y sectorau amaeth a thwristiaeth, gyda threfi sy'n ganolfannau i wasanaethu ardaloedd eang – trefi sy'n cynnwys ysbytai, prifysgolion, ac sy'n ganolfannau teithio yn sgil cyfleoedd gwaith.

Maen nhw hefyd yn fannau lle bu diboblogi ers amser  o ganlyniad i ffactorau fel diffyg swyddi lleol da, tlodi, a phrisiau tai uchel. Mae'r duedd hon o allfudo, ar y cyd â mewnfudo o'r tu allan i'r ardal, yn ddylanwadau'n fawr ar y Gymraeg. Mae llawer o'r rheini sy'n symud allan yn bobl ifanc, yn rhannol am fod bywyd modern yn galw am greu unigolion gyda sgiliau addas i fod yn hyblyg yn y byd gwaith, gan roi'r potensial i bobl symud os nad oes gwaith yn lleol. Mae hyn yn mynd law yn llaw â mewnfudo i sawl ardal gan bobl hŷn sy'n ymddeol.

Nid oes un ateb hawdd i'r heriau sy'n wynebu'r cymunedau hyn, ond yn sicr gwelwn fod angen i gynllunio ieithyddol asio â datblygiadau i annog twf economaidd er mwyn creu cymunedau Cymraeg sy'n hyfyw yn economaidd ac yn ieithyddol.

### Cryfhau'r Gymraeg mewn cymunedau dwysedd is

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi'r ardaloedd hynny lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw, ond mae angen i gynllunio ieithyddol gymryd anghenion y boblogaeth gyfan i ystyriaeth.

Mae ardaloedd â chanran is o siaradwyr Cymraeg wedi gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd, yn sgil twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a thueddiadau mudoledd sy'n gweld pobl yn symud o ardaloedd gwledig i'r trefol/dinesig, ac o siroedd y gogledd a'r gorllewin i'r de-ddwyrain.  Mae hyn wedi arwain at gryfhau'r Gymraeg mewn rhai ardaloedd, gan ddod â sgiliau Cymraeg i weithleoedd ac economi de Cymru, sydd ynddo ei hun yn araf ddyrchafu bri y Gymraeg.

Dyma ardaloedd lle bu'r Gymraeg ar un adeg yn gryf a lle mae potensial i'r Gymraeg ddychwelyd iddynt. Mae gan y Gymraeg droedle yn yr ardaloedd hyn, drwy'r bobl sy'n ei siarad yno, y siaradwyr newydd sy'n dod drwy'r system addysg, yn ogystal ag enwau lleoedd ayyb. Ceir yma ymwybyddiaeth o'r iaith, ac felly rhywbeth i adeiladu arni.

Mae angen deall y gwahanol leoedd a thueddiadau er mwyn targedu yn ôl amrywiadau lleol, a chaniatáu ar gyfer datrysiadau gwahanol a hyblyg sy'n cyfateb i anghenion. Bydd cynllunio rhanbarthol yn rhan bwysig o hyn, gan

DRAFT - CYFRINACHOL 2017

bontio’r lefel genedlaethol a’r lleol. Ac am fod cysylltiad annatod rhwng cymdeithas ac economi, bydd y cynllunio rhanbarthol hwn yn cynnwys ffocws ar bwysigrwydd datblygu economaidd i’r Gymraeg a chymdeithas sy’n cefnogi’r Gymraeg.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017


# CYRRAEDD Y MILIWN

Mae'r uchelgais o filiwn o siaradwyr yn heriol ond, o'i chyflawni, byddai'n gwyrdroi'r gostyngiad a welwyd yn nifer y siaradwyr dros yr ugeinfed ganrif. Ym 1911, roedd bron i filiwn (977,000) o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yng Nghymru.

## Y targed mewn cyd-destun hanesyddol

Mae'r siart isod yn dangos taith yr iaith dros y ganrif ddiwethaf. Ar sail ffigurau'r Cyfrifiad, mae angen oddeutu 438,000 o siaradwyr Cymraeg newydd erbyn 2050 os am gyrraedd miliwn. Mae hynny'n golygu nid yn unig rhoi camau ar waith i gynyddu nifer y siaradwyr, ond bod angen hefyd cynnal y rheini sydd eisoes yn bodoli, am y bydd marwolaethau ac allfudo'n effeithio ar nifer y siaradwyr presennol.

***Siart 1: Nifer y bobl tair oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg, Cyfrifiad 1911-2011, ynghyd â'r uchelgais erbyn 2050 (a)***




(a) Noder nad oedd Cyfrifiad ym 1941.

## Dulliau caffael iaith

Mae creu cynnydd mewn niferoedd ar y raddfa angenrheidiol yn gofyn am weithredu dwys, ac mae dau ddull allweddol a fydd yn cyfrannu at y cynnydd: trosglwyddo'r Gymraeg rhwng cenedlaethau, a datblygu sgiliau iaith Gymraeg drwy'r gyfundrefn addysg a hyfforddiant.

## Trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref

O edrych ar ffigurau'r Cyfrifiad diweddaraf yn 2011, mae'n dangos pwysigrwydd trosglwyddo o fewn teuluoedd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, a bod lle i gynyddu'r gyfradd sy'n trosglwyddo mewn teuluoedd dwyieithog. Ar hyn o bryd, mewn aelwydydd lle gall dau riant siarad Cymraeg mae 82 y cant o blant tair i bedair oed yn gallu siarad Cymraeg. Mewn aelwydydd lle gall un rhiant allan o ddau siarad Cymraeg, mae 45 y cant o blant tair i bedair oed yn gallu siarad Cymraeg.

Mae pen draw i'r nifer ychwanegol o siaradwyr Cymraeg y gellid eu creu o drosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r nesaf oni bai bod rhagor o rieni, yn y man cyntaf, yn penderfynu dysgu Cymraeg, ac yn ail yn ei throsglwyddo i'w plant. Dyma pam ei bod yn hanfodol creu siaradwyr drwy'r gyfundrefn addysg sy'n mynd i drosglwyddo'r iaith i'w plant.

## Addysg cyfrwng Cymraeg

Rydym yn cydnabod mai addysg drochi yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd. Mae data ysgolion yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, o'r 35,000 o ddysgwyr ym mlwyddyn 2, mae tua 22 y cant (sef 7,900) yn cael eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf). Petai'r ganran hon yn codi i 40 y cant erbyn 2050 yna byddai hyn yn oddeutu 14,000 o ddysgwyr (ar sail maint y garfan o ddysgwyr ym Mlwyddyn 2 yn 2015), sef tua 5,100 yn ychwanegol o blant. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ymrwymiad y system addysg i greu miliwn o siaradwyr. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd y Mudiad Meithrin fel pwynt mynediad cynnar i addysg drochi, ac fel ffordd o greu'r galw am dwf mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r data diweddaraf yn dangos fod 85% o'r plant sy'n mynychu cylchoedd meithrin y Mudiad Meithrin yn trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

## Dysgu'r Gymraeg [mewn ysgolion Saesneg]

Rydym am i'n holl ddysgwyr gael y cyfle i fod yn ddwyieithog. Er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr, bydd angen cynyddu'r nifer o ddysgwyr mewn [ysgolion cyfrwng Saesneg] sy'n llwyddo i gaffael yr iaith.

## Dysgu'r Gymraeg fel oedolion

Rhaid hefyd cofio pwysigrwydd y maes dysgu Cymraeg fel oedolion. Yn ôl y data diweddaraf, mae 15,520 yn dysgu Cymraeg fel oedolion. Mae angen gwneud gwaith pellach i gael darlun mwy eglur o'r nifer sy'n dysgu Cymraeg ac yn hyderus i'w defnyddio, a bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd yn mynd i'r afael â hyn.


DRAFT: CYFRINACHOL 2017

## Amcanestyniad a thaflwybr i'r miliwn

Mae Siart 2 isod yn dangos dau drywydd posibl ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yng Nghymru rhwng 2017 a 2050, sef:

- **Amcanestyniad**: ar sail dim newid polisi
- **Taflwybr i'r miliwn**: ar sail y newidiadau polisi fydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth yn y Strategaeth hon

***Siart 2: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050***




DRAFT

### Yr amcanestyniad

Mae'r llinell [goch/isaf] yn cynnig amcanestyniad[3] o nifer y siaradwyr Cymraeg, yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011. Mae'r amcanestyniad wedi ei seilio ar senario lle mae'r tirwedd polisi ar gyfer y Gymraeg a'r Gymraeg mewn addysg yn aros yn gyson fel ag y mae heddiw.

Ymgais yw'r amcanestyniad i ragweld nifer y siaradwyr Cymraeg yn 2050, yn seiliedig ar batrymau heddiw, er mwyn deall oddeutu faint o siaradwyr Cymraeg yn ychwanegol fyddai angen er mwyn cyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg[4]. Fel gydag unrhyw amcanestyniad, dylid trin yr

---

[3] Yr hyn a olygir wrth *amcanestyniad* yw nifer y siaradwyr Cymraeg a ragwelir pe bai'r patrymau a thueddiadau a welwyd yng Nghyfrifiad 2011 yn parhau hyd at 2050.

[4] Mae'r amcanestyniadau yn barhad o'r amcanestyniadau a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn y cyhoeddiad *Darlun ystadegol o sefyllfa'r Gymraeg* (2012), gan ddefnyddio data Cyfrifiad

amcanestyniad hwn â gofal gan ei fod yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau sydd wedi eu seilio ar batrymau'r gorffennol – mae'n debyg bydd y patrymau hyn yn newid dros amser.

### Y taflwybr i'r miliwn

Mae'r llinell [las/uchaf] yn cynnig taflwybr o nifer y siaradwyr Cymraeg hefyd yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011, yn ogystal â nifer o dybiaethau sy'n seiliedig ar newidiadau polisi yn sgil gweithredu'r strategaeth hon er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

| **Blwyddyn** | **Nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd** |
|---|---:|
| 2017 | 578,000 |
| 2022 | 606,000 |
| 2027 | 668,000 |
| 2032 | 731,000 |
| 2037 | 803,000 |
| 2042 | 874,000 |
| 2047 | 947,000 |
| 2050 | 1,000,000 |

Mae'r llinell yn dangos llwybr tebygol y cynnydd hyd at filiwn, ar sail rhaniad blynyddoedd sydd yn adlewyrchu newidiadau arfaethedig o fewn y gyfundrefn addysg. Mae'r darlun hwn yn adlewyrchu'r ragdybiaeth y bydd y ganran o ddisgyblion sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a deilliannau ieithyddol y rhai sydd yn y sector cyfrwng Saesneg, yn aros yn weddol sefydlog yn y cyfnod 2017-22. Rhagwelir mai ar ôl 2022, wrth i'r gyfundrefn addysg weithio tuag at darged o 40% o blant 7 oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050, a chynnydd yn sgiliau Cymraeg disgyblion yn ehangach wrth wireddu'r newidiadau pellgyrhaeddol i'r cwricwlwm, y gwelir cynnydd mwy sylweddol.

Yn yr un modd, mae'r trywydd hwn yn adlewyrchu'r ragdybiaeth y gwelir cynnydd bach yng nghyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn y cyfnod 2017-22, ac mai ar ôl 2022, gyda chynnyrch y gyfundrefn addysg yn

2011 yn hytrach na Chyfrifiad 2001. Mae sawl dull o ddatblygu amcanestyniad ond penderfynwyd defnyddio'r un fethodoleg ag amcanestyniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn cysondeb. Yn fras, mae'r amcanestyniad yn cymryd bydd canran y siaradwyr Cymraeg mewn un grŵp oedran mewn un blwyddyn yr un peth â'r ganran yn y grŵp oedran flwyddyn yn hŷn y flwyddyn ganlynol.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

dechrau dangos cynnydd yn niferoedd y rhieni a fydd â'r sgiliau Cymraeg i'w trosglwyddo i'w plant, y gwelir cynnydd mwy sylweddol.

Ar gyfer dibenion pennu'r trywydd hwn, mae'r maes addysg yn canolbwyntio, yn y cyfnod 2017-22, ar addysg yn y blynyddoedd cynnar ac addysg statudol yn unig. Bydd gan addysg gydol oes hefyd gyfraniad i'w wneud, drwy ddarpariaeth hyfforddiant iaith Gymraeg i oedolion. O 2022 ymlaen, mae oedolion sy'n ddysgwyr wedi eu cynnwys yn y trywydd.

## Y tybiaethau sy'n sail i'r taflwybr

### 2017-22

*Trosglwyddo'r iaith mewn teuluoedd:* rhagwelir y bydd graddfa'r cynnydd bach a gafwyd yn y gyfradd drosglwyddo rhwng 2001 a 2011 yn parhau hyd 2022.

*Addysg:* rhagwelir y bydd y patrwm cyfredol o ran canran y disgyblion sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a deilliannau ieithyddol y disgyblion sydd yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, yn aros ar raddfa debyg i'r un a geir ar hyn o bryd.

### 2022-32

*Trosglwyddo'r iaith mewn teuluoedd:* rhagwelir y bydd cynnydd graddol ond ceidwadol yn y gyfradd drosglwyddo, wrth i'r garfan oedd yn 15 (16?) mlwydd oed yn 2011 gyrraedd gwaelod y grŵp oedran tebygol ar gyfer cael plant.

*Addysg:* rhagwelir y bydd canran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu'n raddol i 30% erbyn 2030. Yn ogystal, wrth i gwricwlwm nwydd ar gyfer Cymru gael ei gyflwyno yn 2020, gellir disgwyl i sgiliau iaith Gymraeg y disgyblion sydd eisoes yn y gyfundrefn addysg wella'n raddol drso y cyfnod hwn.

Am y tro cyntaf yn 2022-32 gellir cynnwys niferoedd yr unigolion a fydd yn caffael y Gymraeg fel oedolion – ar sail y dybiaeth y bydd unrhyw un sydd yn cofrestru ar gwrs Mynediad o 2022 ymlaen yn siaradwyr 'ychwanegol' , nad oeddynt wedi datgan gallu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021.  O 2025 ymlaen y ragdybiaeth yw y bydd 1,000 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol bob blwyddyn drwy'r ffrwd 'oedolion newydd'.

### 2032-42

*Trosglwyddo'r iaith mewn teuluoedd:* erbyn canol y ddegawd bydd y garfan oedd yn 16 oed yn 2032 yn cyrraedd gwaelod y grŵp oedran tebygol ar gyfer cael plant. Gyda mwy ohonynt yn gallu siarad Cymraeg o ganlyniad i newidiadau yn y ddarpariaeth addysgol a fydd wedi eu cyflwyno ers 2021, gellir tybio y bydd y gyfradd trosglwyddo yn cynyddu ar raddfa cynt na'r ddegawd flaenorol.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

*Addysg:* yn 2032 bydd y garfan gyntaf a fydd wedi dilyn y cwricwlwm newydd ar gyfer y Gymraeg (mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg) o 2021 ymlaen yn 16 oed.

## Defnydd iaith

Mae'r taflwybr yn rhoi darlun i ni o'r trywydd posibl tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nid oes modd i fodelau fel hyn rhoi darlun i ni o'r sefyllfa o ran defnyddwyr y Gymraeg yn y dyfodol. Bydd hi'n hollbwysig, fodd bynnag, ein bod yn cadw golwg gofalus ar ddata defnydd iaith yn gyfochrog a'r data o ran sgiliau iaith wrth i ni weithredu'r Strategaeth.

Ein man cychwyn fydd Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 sy'n cyflwyno darlun manwl i ni o batrymau defnydd iaith oedolion a phobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg – pa mor dda y gallent siarad yr iaith, pa mor aml, ble, pryd ac â phwy y maent yn ei defnyddio. Adroddodd Arolwg 2013-15 y canfyddiadau canlynol:

- Mae bron i hanner o holl siaradwyr Cymraeg yn ystyried eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl a 21 y cant yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg.
- Mae crynodiad uchaf y siaradwyr Cymraeg rhugl yn ardaloedd awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru. Fodd bynnag, mae rhai o'r gostyngiadau mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ers 2004-06 i'w gweld yn yr ardaloedd hyn o ran y nifer sydd yn rhugl. I'r gwrthwyneb gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ers 2004-06 yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf.
- Mae ychydig dros hanner y siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg bob dydd; mae bron i un ymhob pump yn siarad Cymraeg bob wythnos.
- Mae siaradwyr Cymraeg ifanc yn fwy tebygol o fod wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol nag yn unrhyw le arall. Mae siaradwyr Cymraeg hŷn yn fwy tebygol o fod wedi dysgu'r Gymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc nag yn unrhyw le arall.
- Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o siarad Cymraeg bob amser, neu bron bob amser, yn yr ysgol nag ydynt o wneud hynny gyda'u ffrindiau neu gartref.
- Mae ychydig dros hanner siaradwyr Cymraeg yn ceisio defnyddio'r Gymraeg, yn achlysurol man lleiaf, wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus.


DRAFT - CYFRINACHOL 2017

# TAIR THEMA STRATEGOL

Cyflwynir yn yr adran hon grynodeb o'r themâu sy'n sail i'n cynlluniau i wireddu ein gweledigaeth, ynghyd â'r nodau o dan y penawdau hynny.

Fel a nodwyd eisoes, mae cyswllt agos rhwng caffael iaith ac ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar y naill law, ac ymdrechion i wreiddio arferion ieithyddol a chynyddu defnydd o'r Gymraeg ar y llaw arall. Ac er mwyn rhoi cyd-destun i alluogi hynny i ddigwydd, mae angen creu'r amodau ffafriol o ran is-adeiledd ac hinsawdd.

Wrth weithredu'r Strategaeth, felly, bydd nifer o'n hymyraethau yn cyfrannu at fwy nag un nod, ac ar draws mwy nag un thema.




Cyflwynir isod y nodau o dan bob thema. Bu'r ymgynghoriad ar Strategaeth ddrafft a gynhaliwyd yn 2016 yn gymorth wrth i ni lunio'r nodau hyn. Wrth fynd ati i weithredu o dan y nodau hyn, pwysig yw nodi nad ydym yn dechrau o'r newydd. Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar ddegawdau o weithgaredd cynllunio ieithyddol.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## Thema 1 - Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

**Nodau**

- **Trosglwyddo'r Gymraeg**: rhoi'r cychwyn gorau i'n plant yn yr iaith drwy ehangu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref
- **Y blynyddoedd cynnar**: ehangu darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.
- **Addysg statudol**: creu system addysg statudol sy'n cynyddu a chynnal nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus
- **Addysg ôl-statudol**: datblygu darpariaeth ôl-statudol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, beth bynnag fo'u gafael ar yr iaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg er mwyn eu defnyddio'n

gymdeithasol ac yn y gweithle.

- **Gweithlu ac adnoddau addysg**: cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:
  - y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg a thrwy'r Gymraeg
  - yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen er mwyn caniatáu cynyddu'r ddarpariaeth.

## Thema 2 - Defnyddio'r Gymraeg

**Nodau**

- **Arferion ieithyddol**: gwreiddio arferion ieithyddol cadarnhaol, yn arbennig ymysg teuluoedd, plant a phobl ifanc

- **Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg**: sicrhau bod digonedd o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i bawb ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

- **Y gweithle**: tyfu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd a gan y gymuned fusnes

- **Gwasanaethau**: mynd â gwasanaethau Cymraeg at y defnyddiwr drwy gynllunio'r gweithlu a gwreiddio'r egwyddor o'r cynnig rhagweithiol.

## Thema 3 – Creu amodau ffafriol: Isadeiledd ac Hinsawdd

**Nodau**

- **Cymdeithas ac economi**: cefnogi isadeiledd economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg

- **Cymru a'r byd**: sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n cenhadaeth i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru

- **Newid ymddygiad ieithyddol**: adeiladu ar ewyllys da tuag at yr iaith a'i normaleiddio drwy farchnata, newid ymddygiad, a sicrhau bod y Gymraeg yn elfen annatod o naratif / arlwy diwylliannol Cymru bob amser

- **Cynllunio ieithyddol**: gwreiddio cynllunio ieithyddol a hybu iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, gan ddeall yn well a chefnogi

dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg

- **Seilwaith y Gymraeg**: sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminolegau, proffesiwn cyfieithu, adnoddau digidol) yn gyfoes ac yn parhau i ddatblygu

- **Deddfwriaeth**: sicrhau bod sylfaen ddeddfwriaethol y Gymraeg yn addas ac yn gyfredol.

Mae gweddill y ddogfen hon yn manylu ar y nodau hyn.

Bydd atodiadau i'r ddogfen hon yn amlinellu ein blaenoriaethau manwl wrth roi'r nodau ac amcanion ar waith.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

# THEMA 1: CYNYDDU NIFER Y SIARADWYR CYMRAEG

Mae'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr yn golygu datblygu ymhellach y dulliau sydd fwyaf tebygol o arwain at y cynnydd angenrheidiol. Mae dau prif ddull, sef trosglwyddo'r Gymraeg o genhedlaeth i genhedlaeth yn y cartref, a datblygu a chynnal sgiliau drwy addysg a hyfforddiant, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar a'r ddarpariaeth Cymraeg i oedolion.

## Nodau:

1. **Trosglwyddo'r Gymraeg**: rhoi'r cychwyn gorau i'n plant yn yr iaith drwy ehangu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref

2. **Y blynyddoedd cynnar**: ehangu darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

3. **Addysg statudol**: creu system addysg statudol sy'n cynyddu a chynnal nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus

4. **Addysg ôl-statudol**: datblygu darpariaeth ôl-statudol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, beth bynnag fo'u gafael ar yr iaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg er mwyn eu defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

5. **Gweithlu ac adnoddau**: cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:

   - y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg a thrwy'r Gymraeg
   - yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen er mwyn caniatáu cynyddu'r ddarpariaeth.

## Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn cydnabod cyfraniad allweddol trosglwyddo iaith yn y cartref i hyfywedd y Gymraeg yn y dyfodol. Mae'r dystiolaeth ar gaffael iaith yn ystod babandod a phlentyndod yn eang, ac yn dangos bod dysgu iaith yn ystod babandod a phlentyndod cynnar yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer datblygu hyfedredd a sgiliau pellach. Mae canfyddiadau *Arolwg Defnydd Iaith 2013-15* yn dangos bod siaradwyr Cymraeg a ddysgodd y Gymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc yn fwy tebygol o fod yn rhugl na'r rhai a ddysgodd yn yr ysgol. Mae'r arolwg hefyd yn dangos bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn

siarad yr iaith yn fwy aml na siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl. Ffactor arall a amlygwyd yn *Arolwg Defnydd Iaith 2013-15* , yw bod siaradwyr Cymraeg ifanc yn fwy tebygol o fod wedi dysgu yn yr ysgol nag yn unrhyw le arall, a siaradwyr Cymraeg hŷn yn fwy tebygol o fod wedi dysgu'r Gymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc nag yn unrhyw le arall.

Fodd bynnag, am fod pen draw i'r nifer ychwanegol o siaradwyr Cymraeg y gellid eu creu o drosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r nesaf, does dim dwywaith mai'r system addysg a hyfforddiant yw'r prif ddull o greu siaradwyr newydd, gan sicrhau bod pobl o bob oedran yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae cynyddu nifer y bobl sy'n datblygu'r sgiliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus pan fyddant yn gadael yr ysgol hefyd yn golygu bod gan ragor o bobl botensial i drosglwyddo'r iaith yn y dyfodol.

Os ydym am gymryd camau breision ymlaen i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr, mae'n rhaid cynllunio darpariaeth a'r gweithlu yn fwy rhagweithiol a systematig, ac rydym yn glir bod angen newid y pwyslais o ateb y galw i ddyletswydd i dyfu addysg Gymraeg er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ym mhob cyfnod o addysg a hyfforddiant i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cwymp sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu nodi fel siaradwyr Cymraeg rhwng oedrannau 16 a 25, ond bod y nifer yn aros yn go wastad wedi'r pwynt hwn. Un o'n prif amcanion ar gyfer y strategaeth hon felly yw sicrhau bod llai o bobl ifanc yn colli'r Gymraeg wrth symud o addysg statudol i addysg bellach / uwch neu'r gweithle, a bod rhagor ohonynt yn cyrraedd canol eu hugeiniau wedi dal gafael ar yr iaith.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## TROSGLWYDDO'R GYMRAEG

> Rhoi'r **cychwyn gorau** i'n plant yn yr iaith drwy ehangu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo a defnyddio'r iaith yn y cartref

Tra bydd nifer o'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y tymor byr yn gosod seilwaith i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr hirdymor, nid yw effaith pob ymyrraeth cynllunio ieithyddol o reidrwydd yn hirdymor ei natur. Er enghraifft, gall penderfyniad rhieni i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant o'r crud ddechrau dwyn ffrwyth o fewn tair blynedd.

Trosglwyddo'r iaith yn y cartref yw'r dull mwyaf effeithiol o sicrhau bod plant yn datblygu sgiliau iaith yn gynnar, a'r cynharaf y mae plentyn yn cael cyffyrddiad â'r iaith, y mwyaf o gyfle sydd ganddo i ddod yn rhugl. Daw rhai[5] astudiaethau ymchwil i'r casgliad mai'r ffactorau mwyaf dylanwadol ar drosglwyddo'r Gymraeg i blant yw profiadau a chefndir ieithyddol y rhieni, a'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ganddynt gyda rhwydweithiau estynedig. Yn hynny o beth, mae cyswllt amlwg yma gydag ail thema'r strategaeth hon, sy'n ymdrin â datblygu cyfleoedd cymdeithasol i oedolion a theuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae cyfraddau trosglwyddo gwahanol mewn aelwydydd lle gall y ddau riant siarad Cymraeg (82%), aelwydydd lle gall un rhiant allan o ddau siarad Cymraeg (45%), a theuluoedd un rhiant lle gall y rhiant yn siarad Cymraeg (53%). Byddwn yn teilwra'r ddarpariaeth ar gyfer y gwahanol deuluoedd hyn.

Ni all llywodraeth reoli sut mae pobl yn ymddwyn yn eu cartrefi, na gorfodi rhiant i siarad Cymraeg gyda'i blentyn. Mae'n allweddol felly ein bod ni'n annog a chefnogi teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant, yn hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a darpar rieni, ac yn sicrhau bod gan deuluoedd gyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Gwelwn mai'r ffordd o wneud hyn yw drwy ddarparu negeseuon a gwella dealltwriaeth pobl o drosglwyddo a phrosesau caffael iaith mewn plant dwyieithog.

Bydd angen plethu'r negeseuon i waith amryw o bobl broffesiynol sy'n dod i gysylltiad â rhieni a darpar rieni, gan gynnwys bydwragedd, darparwyr gofal sylfaenol, a gwasanaethau sy'n darparu gwybodaeth i deuluoedd, er mwyn cyfleu darlun clir a chyson am y Gymraeg a dwyieithrwydd ar adegau allweddol ar hyd y daith o fagu plentyn.

DRAFFT CYFRINACHOL 2017

[5] Gathercole *et al.* (2007)

Yn y tymor hir, o gael rhagor o siaradwyr newydd, rhagwelwn y bydd yr her mewn perthynas â throsglwyddo'n newid, a bydd angen i ni ymateb ac addasu ein dulliau yn unol â hynny.

## Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

- Ehangu darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg

Y nod hirdymor ar gyfer ein darpariaeth blynyddoedd cynnar yw cyrraedd sefyllfa lle mae llawer mwy o blant dan 5 oed wedi cael digon o gyswllt â'r Gymraeg i allu dechrau ar eu taith i ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg [**rhugl**?].

Mae nifer o resymau wrth wraidd yr angen i rieni ddefnyddio darparwyr gofal plant, ac mae'r strategaeth hon yn anelu at sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn hanesyddol, dros y pedwar degawd diwethaf a mwy y sector gwirfoddol, dan adain Mudiad Meithrin, sydd wedi cynnal gofal meithrin Cymraeg, gan ddatblygu cyfleoedd i blant ledled Cymru dderbyn gofal a gwasanaethau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.  Drwy ffurfioli trefniadau gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar a gwneud y Gymraeg yn rhan o'r brif ffrwd, mae cyfle i gynnal a chryfhau rôl y sector gofal Cymraeg i'r dyfodol er mwyn ehangu ar y cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## ADDYSG STATUDOL

- System addysg statudol sy'n cynyddu a chynnal nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus.

Ein nod yw cynyddu'n sylweddol nifer y dysgwyr mewn addysg statudol sy'n datblygu sgiliau Cymraeg, a sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu sgiliau yn y Gymraeg at safon a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Byddwn yn symud o fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg i dyfu addysg Gymraeg yn systematig a rhagweithiol.

Mae cynnydd mawr wedi bod ym maes addysg cyfrwng Cymraeg ers sefydlu'r ysgol gynradd wladol cyfrwng Cymraeg gyntaf yn 1947. Erbyn 2016 roedd xx o ysgolion cynradd (xx%) a xx o'n hysgolion uwchradd (xx%) yn defnyddio'r Gymraeg fel prif gyfrwng addysgu. Er mwyn i ni weld cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr, bydd gofyn am gamau pendant ymlaen dros y 30 mlynedd nesaf – ac yn benodol dros y 5-10 mlynedd nesaf wrth inni adeiladu ar y sylfeini.

Mae patrymau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru yn amrywio o ardal i ardal, ac o'r cynradd i'r uwchradd. Mae nifer o'r gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu patrymau defnydd iaith y gymuned ehangach ac eraill yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y ffordd y caiff polisïau eu rhoi ar waith. Er bod angen i'r system addysg fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu nodweddion ieithyddol gwahanol rannau o Gymru, mae'n bwysig i ni sicrhau bod addysg yn cael ei chynllunio a'i darparu ar sail dealltwriaeth glir o ddeilliannau ieithyddol y dysgwyr.

Er mwyn cynyddu'r lleoedd addysg sy'n datblygu siaradwyr hyderus yn y Gymraeg yn y sector cynradd ac uwchradd, bydd gofyn am sawl dull gwahanol o weithredu. Gan nad oes disgwyl i'r boblogaeth gynyddu'n sylweddol dros amser, mae'n annhebygol y bydd angen agor nifer helaeth o ysgolion newydd. Felly, yr her i awdurdodau lleol fydd ail-gyflunio'r ddarpariaeth er mwyn creu mwy o leoedd cyfrwng Cymraeg ac er mwyn sicrhau bod mwy o ysgolion dwyieithog, dros amser, yn cyflwyno cyfran uwch o'r cwricwlwm yn Gymraeg er mwyn rhoi seiliau ieithyddol cadarn i'r dysgwyr. Wrth reswm, pan fydd cyfleoedd gan awdurdodau lleol i agor ysgolion newydd fel rhan o gynlluniau datblygu lleol neu gynlluniau economaidd ar raddfa fawr, byddwn yn disgwyl iddynt ymateb gyda chynlluniau cadarn a fydd yn dangos yn glir sut bydd y cynlluniau yn cyd-fynd â'n nod o greu mwy o siaradwyr.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

Mae cyfle hefyd gan bob awdurdod lleol i ddatblygu pwyntiau mynediad gwahanol i addysg cyfrwng Cymraeg, boed yn y sector cynradd neu uwchradd, trwy ddarpariaeth benodol i hwyrddyfodiaid. Mae nifer o fodelau ac arfer da eisoes ar waith ar draws Cymru, ac mae cyfle ym mhob rhan o Gymru i gynyddu ar y ddarpariaeth hon dros amser.

Mae cyfraniad pwysig i'w wneud gan y sector cyfrwng Saesneg i'n nod o ddatblygu siaradwyr Cymraeg. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi datgan ei bwriad i ddatblygu un continwwm ar gyfer addysgu'r Gymraeg fel iaith, gyda phwyslais ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel dull o gyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu llafar. Bydd disgwyl i bob ysgol yng Nghymru gyflwyno'r continwwm iaith i bob dysgwr dros amser, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn gallu meithrin a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau ymhob agwedd o'u bywydau. Bydd cyflwyno'r continwwm yn cymryd amser, ac yn ddibynnol ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu a sicrhau cyfleoedd estynedig i ddefnyddio'r iaith. O'i gyflwyno'n llwyddiannus, byddwn yn gallu gwneud camau breision at ein nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr.

Bydd gofyn am uchelgais, cefnogaeth ac arweiniad cadarn gan awdurdodau lleol, llywodraethwyr a phenaethiaid ysgolion i wireddu'n nod. Bydd hefyd angen sicrhau bod rhieni a dysgwyr yn deall ddeilliannau ieithyddol y gwahanol fodelau o ddarparu er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau gwybodus ac yn datblygu dealltwriaeth o berthnasedd yr iaith i fywyd bob dydd ac ar gyfer y gweithle.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## ADDYSG ÔL-STATUDOL

- Datblygu darpariaeth ôl-statudol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, beth bynnag fo'u gafael ar yr iaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg er mwyn eu defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle**.**

O fuddsoddi amser ac arian mewn unigolion er mwyn cynyddu'r gyfradd drosglwyddo a chynyddu'r nifer sy'n datblygu sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod addysg statudol, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod pobl yn parhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol drwy'r daith addysg ac i mewn i fyd gwaith. Rhaid sicrhau ein bod yn caniatáu i bobl ifanc gyflawni eu potensial ym myd addysg drwy'r Gymraeg, er mwyn cymryd rhan yn yr economi â dwy iaith neu fwy.

Mae taith iaith unigolion yn gallu amrywio yn helaeth, ond mae tystiolaeth yn dangos ein bod yn colli siaradwyr ifanc wrth iddynt symud o un cyfnod addysg i'r llall, a bod dylanwad rhieni a chyfoedion yn effeithio ar benderfyniadau. Ein nod yw sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc yn y system addysg yn parhau gyda'r Gymraeg fel eu bod yn cynnal a datblygu eu sgiliau i fod yn siaradwyr a gweithwyr y dyfodol.

Mae cyrsiau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith ac addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol i greu llwybr naturiol o addysg i waith. Dyma'r pwynt, rhwng 14-19 oed, lle rydym yn colli'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg, yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad (gw. tabl x ar dud. X).

Wrth i ragor o ddyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg gael eu gosod ar gyrff o dan ddeddfwriaeth, bydd angen gweithlu sy'n eu caniatáu i ateb y gofynion. O'r herwydd disgwylir i gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, a chyfleoedd gyrfa i bobl ifanc gyda sgiliau dwyieithog gynyddu. Gan fod dwy ran o dair o ddisgyblion yn gadael yr ysgol yn 16 mlwydd oed, ni all yr ysgolion yn unig ddiwallu'r angen. Mae angen sicrhau bod colegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith a phrifysgolion yn cyfrannu at y nod o gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cynnal ac yn datblygu sgiliau dwyieithog addas ar gyfer y gweithle.

### Addysg bellach ac addysg uwch

Er bod y colegau wedi cymryd camau i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer pobl ifanc a bod y sector dysgu seiliedig ar waith wedi gweld cynnydd cyson yn nifer y dysgwyr sy'n dysgu yn ddwyieithog neu'n defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn eu rhaglenni dysgu dros y blynyddoedd diwethaf, hyd yn hyn bu'r cynnydd yn gymharol isel, o ystyried nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed gyda sgiliau iaith Gymraeg.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

Mae ymyriadau penodol ar waith yn y sector addysg uwch, gyda ffocws clir ar yr angen i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cafwyd cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio credydau drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae potensial i wneud cynnydd pellach.

Er mwyn camu ymlaen a sicrhau gwell cysylltiad a dilyniant rhwng addysg statudol, addysg bellach ac addysg uwch, bydd angen ystyried sut orau i sicrhau gwell cydlyniant a cilyniant hefyd o safbwynt cyfrifoldeb am y meysydd hyn.

Mae nifer o heriau ar gyfer darparwyr addysg ôl-16, yn eu plith sicrhau gweithlu â'r sgiliau i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn yr un dosbarth, sicrhau bod rhagor o weithleoedd yn cynnig cyfleoedd i ymgymryd â'r elfen gweithle trwy gyfrwng y Gymraeg, a sicrhau bod myfyrwyr yn dewis parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n datblygu eu sgiliau ieithyddol.

Her arall yw dwyn perswâd ar bobl ifanc am fanteision y Gymraeg ar gyfer byd gwaith a phwysigrwydd defnydd iaith er mwyn cynnal rhuglder a hyder.

Rydym yn ymwybodol bod nifer o bobl yn ail-afael ar eu dysgu pan yn oedolion, gan nad ydynt wedi cynnal eu sgiliau iaith. Am nad yw'r continwwm ieithyddol yn dod i ben gyda diwedd y prif gyfnodau addysg a hyfforddiant, mae'r daith iaith yn parhau ar bob cam o fywyd.

## Cymraeg i oedolion

Mae gan faes Cymraeg i Oedolion gyfraniad o bwys i'w wneud i'n nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr. Bydd yn gwneud hyn drwy alluogi oedolion o bob gallu ac oedran i wella'u sgiliau, ail-afael yn y Gymraeg neu ddysgu o'r newydd er mwyn eu galluogi i fod yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn gymdeithasol ac o fewn y teulu.

Dros y blynyddoedd diweddaf mae newidiadau strwythurol wedi digwydd yn y maes. Mae cyfle nawr i ddatblygu agweddau o'r maes ar lefel genedlaethol a gweddnewid y ddarpariaeth i gefnogi ein nodau ac amcanion eraill, megis darpariaeth cyrsiau ar gyfer y gweithle, y teulu, a chyfleoedd i ddefnyddio technoleg yn fwy effeithiol i gefnogi'r dysgu.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## GWEITHLU AC ADNODDAU ADDYSG

- Cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:
  - y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg a thrwy'r Gymraeg
  - yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen er mwyn caniatáu cynyddu'r ddarpariaeth**.**

### Y gweithlu addysg

Er mwyn creu rhagor o siaradwyr, mae ein system addysg yn llwyr ddibynnol ar y gweithlu – yn athrawon, ymarferwyr blynyddoedd cynnar, hyfforddwyr a darlithwyr. Os am gynyddu'r niferoedd sy'n siarad ac yn defnyddio Cymraeg ar y raddfa sydd ei hangen, y cam cyntaf angenrheidiol fydd rhoi'r sylfeini yn eu lle i greu cyflenwad digonol o athrawon ac ymarferwyr yn y mannau cywir i addysgu plant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae sicrhau gweithlu sydd â sgiliau ieithyddol cadarn ac sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr mewn addysg Gymraeg yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth.

Gallai buddsoddi cynnar yn hyn o beth arbed llawer mwy yn yr hirdymor.

Ein blaenoriaeth fwyaf fydd cynyddu capasiti'r system i ddiwallu'r angen i ehangu gofal, addysg ac hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, ac i ddiwallu'r angen i wella sut caiff y Gymraeg ei haddysgu yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg. Ym maes addysg statudol, mae hynny'n golygu cynllunio'r gweithlu er mwyn hyfforddi athrawon newydd, cefnogi athrawon dan hyfforddiant a chynorthwywyr dysgu, ehangu cynlluniau sabothol ar gyfer y gweithlu presennol, a chynyddu'n sylweddol nifer y darlithwyr a hyfforddwyr ôl-16 a gweithwyr yn y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.

Byddwn hefyd yn rhoi rhagor o sylw i hyfforddiant ar ddulliau addysgeg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf o ran dulliau trochi, addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Mae hyfforddiant iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn cael ei ddarparu trwy sawl rhaglen gwahanol. Gan fod cynyddu darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn allweddol i'n nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr, mae angen sicrhau cynllun cydlynus ar gyfer datblygu'r gweithlu hollbwysig hwn.

Yr hyn sy'n greiddiol i ddatblygiad addysg Gymraeg yw sicrhau arweinyddion ar bob lefel o'r system sy'n eirioli dros y Gymraeg ac yn gallu dylanwadu ar y gweithlu ehangach a fydd mewn tro yn ysbrydoli plant a phobl ifanc i werthfawrogi'r iaith a'i defnyddio.

DRAFFT-CYFRINACHOL 2017

## Adnoddau a chymwysterau

Law yn llaw â chynyddu'r gweithlu addysg i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae angen i ni wella a chynyddu'r adnoddau a'r cymwysterau sydd ar gael yn y Gymraeg fel sail i'r addysgu.

Yn gyffredinol, [gyda chefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru], gwelwyd cynnydd a gwelliant o ran ansawdd ac ehangder y ddarpariaeth o adnoddau addysgol i gefnogi dysgu ac addysgu'r cwricwlwm a chymwysterau dros y blynyddoedd. Dengys tystiolaeth bod angen rhagor o ddewis mewn nifer o feysydd o hyd, yn benodol adnoddau digidol a rhyngweithiol yn y Gymraeg, a bod oedi wrth gyhoeddi adnoddau yn y Gymraeg yn creu anawsterau i ymarferwyr wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Ymddengys hefyd fod diffyg ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael ynghyd â'u defnyddioldeb i gefnogi addysgu a dysgu.

Mae ar bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru angen cymwysterau gwerthfawr a dealladwy sy'n caniatáu iddyn nhw gyfrannu at gymdeithas a bodloni anghenion ein heconomi. Bydd yn hanfodol i'n system gymwysterau, a fydd yn unigryw i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, sicrhau bod dewis o gymwysterau ar gael i bobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyd llwybrau dilyniant.  Bydd hyn yn galw am gynnydd yn nifer yr aseswyr a chymedrolwyr a fydd yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn rhoi dyletswydd ar gyrff dyfarnu i sicrhau eu bod yn paratoi'r adnoddau a'r asesiadau angenrheidiol yn y ddwy iaith. Byddwn yn cefnogi cyrff dyfarnu yn barhaus er mwyn parhau i ehangu darpariaeth a dewisiadau i ddysgwyr.

Mae datblygu un continwwm ar gyfer dysgu'r iaith hefyd yn gofyn am gymwysterau ar gyfer y Gymraeg a fydd yn cyd-fynd â'r pwyslais arfaethedig ar siarad a gwrando a defnyddio'r iaith yn y gweithle. Mae hefyd yn hollbwysig cydnabod bod pobl ddwyieithog neu amlieithog yn datblygu sgiliau ehangach, megis trawsieithu, a byddwn yn cynllunio i sicrhau bod y sgiliau hyn yn cael eu cydnabod o fewn cymwysterau.

DRAFT - CYFRINACHOL 2017

# THEMA 2 – Defnyddio'r Gymraeg

Mae symud at sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr yn un agwedd ar ein gweledigaeth ar gyfer iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Ond er mwyn cwblhau'r darlun, mae angen i'r miliwn o siaradwyr *ddefnyddio'r* Gymraeg.

Rydym am i ddefnyddio'r Gymraeg fod yn rhan gwbl arferol o fywyd bob dydd, fel bod pobl yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, ac fel bod cynnyrch a gwasanaethau'n cael eu cynnig yn rhagweithiol yn Gymraeg.

## Nodau:

6. **Arferion ieithyddol**: gwreiddio arferion ieithyddol cadarnhaol, yn arbennig ymysg teuluoedd, plant a phobl ifanc

7. **Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg**: sicrhau bod digonedd o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i bawb ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

8. **Y gweithle**: tyfu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd a gan y gymuned fusnes

9. **Gwasanaethau**: mynd â gwasanaethau Cymraeg at y defnyddiwr, yn hytrach na bod y defnyddiwr yn gorfod canfod y gwasanaeth.

### Y berthynas rhwng caffael a defnydd

Mae yna berthynas annatod rhwng caffael iaith (drwy drosglwyddo yn y teulu a chaffael y tu allan i'r cartref) a defnydd iaith, gyda'r pwyslais ar y naill neu'r llall yn cynyddu ac yn gwanhau ar bwyntiau gwahanol ym mywyd yr unigolyn. Gan adeiladu ar y sylfeini a roddwyd yn eu lle gan y system addysg, ac o wireddu'n gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm fel bod pawb yn gadael ysgol â sgiliau ymarferol i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle, rydym yn rhagweld y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl â'r sgiliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd. Ond er mwyn i ymdrechion i gaffael ymwreiddio mae angen cyfleoedd i ymarfer a defnyddio'r iaith yn rheolaidd.

Nid yn annisgwyl, efallai, mae astudiaethau ynghylch defnydd iaith yn awgrymu cysylltiad hefyd rhwng amlder defnydd a rhuglder. Po fwyaf rhugl yw person, yr amlaf y bydd yn ei defnyddio, a'r amlaf y bydd yn ei defnyddio y mwyaf o gyfle sydd i ddod yn rhugl.

DRAFT - C

## Pobl a defnydd

Yn y bôn, mae iaith yn bodoli oherwydd ymwneud pobl â'i gilydd. Mae ar bobl felly angen cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrediad o sefyllfaoedd sydd yr un mor eang â'r holl ffyrdd y gallant fyw eu bywydau, ac annog rhagor ohonynt i fanteisio ar y cyfleoedd hynny.  Mae'r rhain yn cynnwys ar lefel unigolion, y teulu, yn y gweithle, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, neu fel aelodau o rwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach a all fod ar wasgar ym mhedwar ban byd. Gallant fod yn gyfleoedd ar gyfer yr unigolyn yn ogystal â chyfleoedd torfol, cymunedol.

Rhaid i gyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg gael eu cynnig yn rhagweithiol, fel nad oes yn rhaid i'r unigolyn ofyn am y Gymraeg. Yn y pen draw yr weledigaeth yw bod pobl yn ei defnyddio ar bob cyfle, a bod y cyfleoedd ar gael ym mhob man.

Bydd hyn yn gofyn am dargedu gwahanol anghenion gan wahanol bobl. Er enghraifft bydd gan siaradwyr newydd, neu rieni heb sgiliau Cymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg, anghenion gwahanol i siaradwyr rhugl/hyderus. P'un ai wedi'u magu gyda'r Gymraeg ers yn fabanod, wedi dysgu yn yr ysgol neu fel oedolion, neu'n newydd-ddyfodiaid o'r tu hwnt i Gymru, iaith i bawb yw'r Gymraeg, a bydd ein hymyriadau yn anelu at roi cyfleoedd i bawb ddefnyddio'r iaith.

## Cymdeithas ac arferion iaith

Ond ni ellir gwahanu pobl rhag y cyd-destunau maent yn byw ynddynt.  Wrth i natur cymdeithas fodern newid (gweler yr ymdriniaeth ar dudalen x), bydd yn rhaid i ninnau ddatblygu ein dealltwriaeth o sut mae pobl yn byw eu bywydau a'r effaith y caiff hynny ar arferion iaith.  Rhaid i ni asesu'n ofalus y graddau y mae'r gymuned/gymdogaeth leol yn parhau'n brif ddylanwad ar arferion defnydd iaith unigolion, a bod yn barod i ddatblygu ymyraethau polisi sy'n cydnabod y cynnydd mewn symudoledd personol.

Rydym yn sylweddoli fod natur ieithyddol cymunedau yn dueddol o amrywio o'r naill ardal i'r llall, a bod angen gwahanol ddwyster o gynllunio i gefnogi'r Gymraeg yn ôl yr anghenion lleol. Mewn rhai cymunedau, bydd cyfleoedd i ddefnyddio wedi'u gwreiddio ac yn digwydd yn hollol naturiol am mai'r Gymraeg yw iaith bywyd bob dydd, tra bydd ar gymunedau eraill angen cefnogaeth i sicrhau bod darpariaeth ddigonol.

Gan hynny, mae angen i gynllunio ieithyddol ddigwydd ar y lefel rhanbarthol ochr yn ochr ag yn lleol a chenedlaethol. Serch hynny, nid yw cynllunio ieithyddol yn wyddor sy'n arwain at ganlyniadau hollol bendant.  Ceisio deall a dylanwadu ar dueddiadau cymdeithasol ac arferion pobl ydym.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

Bydd llwyddiant ein hymdrechion i gynyddu defnydd yn dibynnu ar brysurdeb y groesffordd lle mae elfennau caffael, hyder a rhuglder, ansawdd y cyfleoedd, ac awydd i ddefnyddio sgiliau yn dod ynghyd. Bydd hyn yn galw am wneud pethau'n wahanol os am gyrraedd y miliwn. Bydd yn golygu penderfyniadau anodd ynghylch y pethau rydym yn eu hariannu, er mwyn buddsoddi mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ymyriadau â chanddynt ffocws cydlynus, ac sy'n dod â gwerth ychwanegol o safbwynt y Gymraeg.

Mae'r hyn sy'n dilyn yn esbonio ein gweledigaeth ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

# ARFERION IEITHYDDOL

- Gwreiddio **arferion ieithyddol** cadarnhaol, yn arbennig ymysg teuluoedd, plant a phobl ifanc.

## Gwreiddio ac ehangu defnydd anffurfiol plant a phobl ifanc

Er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosib yn parhau i ddefnyddio'r iaith yn wyneb y gwahanol gyfnodau pontio a'r penderfyniadau all olygu eu bod yn colli cyswllt â'r Gymraeg, gwelwn mai un ateb yw sicrhau bod y Gymraeg wedi'i gwreiddio'n rhan o hunaniaeth unigolion, fel eu bod yn mynd â'r iaith gyda nhw ar hyd eu bywydau. Yn hynny o beth daw gwreiddio arferion ieithyddol o oedran gynnar yn bwysig.

O dan Thema 1 y ddogfen hon rydym yn crybwyll pwysigrwydd trosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r llall fel ffordd o gynnal a chynyddu nifer y siaradwyr. Yn y bôn, proses sy'n gysylltiedig â defnydd iaith rhieni a phlant yw trosglwyddo, am mai o glywed a defnyddio'r Gymraeg gyda rhiant neu warcheidwad y mae caffael yn y modd hwn yn digwydd. Mae galluogi teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol hefyd yn atgyfnerthu'r hyn sy'n digwydd yn y cartref, ac yn ehangu'r cyd-destunau y mae plant yn gweld bod y Gymraeg yn berthnasol.

Mae'r defnydd hwn yn y teulu'n ffordd hynod effeithiol o wreiddio arferion ac agweddau cadarnhaol, ond gyda llawer o blant yn cael eu cyffyrddiad cyntaf â'r iaith drwy ddarpariaeth feithrin neu yn yr ysgol gynradd, daw'r lleoliadau addysg hyn yn hollbwysig ar gyfer rhoi arferion ieithyddol cadarn iddynt.

Mae angen felly cynllunio darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd nid yn unig yn rhoi'r cyfle iddynt ddefnyddio neu ymarfer y Gymraeg, ond sy'n gwreiddio agweddau ac arferion cadarnhaol at yr iaith ynddynt. Gall hynny dalu ar ei ganfed yn y tymor hir, gan eu helpu i weld nad yw'n rhywbeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn unig, a bod byd cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog yn gysylltiedig â hi.


O safbwynt y cyfnod addysg statudol, rydym eisoes wedi sôn am sut byddwn yn cyflwyno cwricwlwm newydd a fydd yn rhoi cyd-destun gwahanol ar gyfer deall pwysigrwydd y Gymraeg a dwyieithrwydd.  Ac am mai ffrydiau cyfochrog yw addysg a chymdeithas, gyda thystiolaeth yn awgrymu bod y system addysg yn dylanwadu ar arferion ieithyddol yn y gymuned ehangach, byddwn yn ehangu'r ddarpariaeth o gyfleoedd anffurfiol sy'n gysylltiedig ag ysgolion er mwyn creu pont rhwng addysg a'r gymdeithas ehangach, a helpu plant a phobl ifanc i fynd â'r Gymraeg gyda nhw allan i'r byd. Er mwyn gwneud hynny byddwn yn cefnogi rhieni, darparwyr meithrin, athrawon ac ymddiriedolwyr ysgol i wreiddio'r Gymraeg yn iaith i bob disgybl / dysgwr.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

Y tu hwnt i gatiau’r ysgol, byddwn yn  parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid cymunedol allweddol a chyrff llawr gwlad sy'n darparu ystod eang o weithgareddau cyffrous ledled Cymru, gan ddatblygu syniadau newydd, yn ogystal ag annog mwy o bobl ifanc i fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

### Pobl ifanc hŷn (14-19 oed)

Hyd yn oed o wreiddio’r Gymraeg yn gadarn, mae diwedd y cyfnod addysg statudol yn llawn penderfyniadau a chyfleoedd cyffrous i bobl ifanc sydd â’r potensial i fynd â nhw i wahanol gyfeiriadau – boed yn addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau, swyddi neu’n gyfleoedd eraill.  Mae’r cyfnod pontio hwn hefyd yn dod â chyfleoedd iddynt golli cyffyrddiad â’r iaith. Ategir hyn gan y Cyfrifiad, sy’n dangos bod cwymp yn nifer y bobl o’r grŵp hwn sy’n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. O gynyddu’r nifer o’r grŵp oedran hwn sy’n parhau gyda’r iaith, bydd modd gwneud camau cadarnhaol tuag at y miliwn.




Mae tystiolaeth yn awgrymu bod prinder o ran y dewis o weithgareddau Cymraeg (e.e. chwaraeon, cerddoriaeth, cymdeithasol) i bobl ifanc hŷn, sydd â’r potensial i amharu ar y dilyniant a’r cynnydd ieithyddol y bu cymaint o waith i’w ddatblygu yn ystod y cyfnod addysg statudol. Mae perygl bod hyn hefyd yn atgyfnerthu’r canfyddiad mai iaith yr ystafell ddosbarth yw’r Gymraeg, nid iaith cymdeithas a gwaith a mwynhau.

Mae galw am becyn holistig a rhaglen ddwys o gefnogaeth sy’n cynnwys ehangu’r ddarpariaeth addysg uwch / bellach Gymraeg, rhagor o gyfleoedd i’w defnyddio’n anffurfiol, adeiladu ar y cwricwlwm ysgol sydd wedi rhoi negeseuon i bobl ifanc ynghylch hanes a diwylliant Cymru a’r Gymraeg,

cyfleoedd i ddilyn prentisiaethau Cymraeg a chyfleu negeseuon ynghylch y Gymraeg a'r gweithle. Rhaid hefyd cydnabod na wyddom yr holl atebion, a bod galw am ymchwil er mwyn canfod beth sy'n gyrru penderfyniadau ieithyddol y grŵp oedran hwn, a beth yw eu prif ysgogiadau i barhau â'r iaith.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## CYFLEOEDD I DDEFNYDDIO'R GYMRAEG

| |
|---|
| Sicrhau bod digonedd o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i bawb ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol |

### Defnydd cymdeithasol

Beth bynnag fo'u harferion a'u chefndir ieithyddol, mae'n hanfodol bod gan bawb gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a dod i gysylltiad â hi mewn bywyd bob dydd.

Yn draddodiadol rydym wedi meddwl am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol fel mater o ddarparu neu drefnu digwyddiadau. Er bod hyn yn rhan o'r darlun, nid yw hyn yn adlewyrchu'n llawn sut mae pobl yn byw eu bywydau. Mewn llawer o achosion nid yw pobl yn aelodau o glybiau neu'n mynychu gweithgareddau ffurfiol yn gyson, gan dueddu i fod yn rhy brysur neu'n meddu ar flaenoriaethau eraill. Mae'r unigolion hyn yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg ar y stryd, mewn siopau ac wrth ddefnyddio gwasanaethau.

Bydd ymateb i hyn yn golygu ystyried pob ardal ar sail ei chyfansoddiad ieithyddol, a chynllunio er mwyn taro'r cydbwysedd priodol yn lleol rhwng cynnal digwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol, creu gofodau lle mae'n naturiol defnyddio'r Gymraeg, a chymryd camau i normaleiddio'r iaith a chynyddu'r statws a'r bri a roddir arni.

Mewn ardaloedd gyda dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, er enghraifft, mae awgrym bod cyfleoedd i ddefnyddio'n cael eu colli o ganlyniad i'r arfer o ddefnyddio'r Saesneg yn gyhoeddus, er enghraifft mewn siopau. Er mwyn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn gymunedol yn yr ardaloedd hyn, felly, mae angen rhagor o bwyslais ar gefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth fynd o gwmpas eu bywyd bob dydd, gan gynnwys pwyslais ar wella'r ddarpariaeth gan sefydliadau a busnesau (gweler isod).

Mewn ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr, byddwn yn parhau i roi pwyslais ar drefnu digwyddiadau er mwyn rhoi cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith a chynyddu proffil y Gymraeg yn lleol.

Rhan bwysig o hyn fydd datblygu arweinwyr blaengar sy'n deall hanfodion cynllunio ieithyddol, fel bod pobl a mudiadau y tu allan i'r llywodraeth, boed yn brosiectau a ariennir gan y llywodraeth neu'n gyrff ac yn unigolion sy'n gweithredu ar eu liwt eu hunain, ymddwyn fel catalyddion annibynnol. Y nod fydd symud i ffwrdd o ariannu pob corff a digwyddiad er mwyn cefnogi, yn hytrach, pethau sy'n rhoi llwyfan i gymunedau weithredu drostyn nhw eu hunain.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

Ein gweledigaeth hirdymor yw bod y Gymraeg yn rhan hollol arferol o fywyd bob dydd, fel na fydd angen ymyrraeth gan y Llywodraeth i sicrhau bod cyfleoedd a gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

## Cyfleoedd i siaradwyr newydd

Mae'r Gymraeg yn eiddo i bawb ac mae gan bawb botensial i fod yn un mewn miliwn. Mae gan siaradwyr newydd felly ran fawr i'w chwarae i wireddu'n gweledigaeth.

O gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy drosglwyddo ac addysg, sicrhau rhagor o gyfleoedd i'w defnyddio, a chreu'r amgylchiadau sy'n golygu bod y Gymraeg yn elfen normal o fywyd bob dydd, daw mwy a mwy o bobl i gysylltiad â'r iaith. O gyfleu negeseuon cynhwysol sy'n ategu hyn, ein nod yw sicrhau mai un o sgil-effeithiau'r cyswllt hwn fydd awydd ymysg rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg.

Wrth ystyried gwella'r ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr newydd, byddwn yn canolbwyntio ar ddwy elfen:

1. sicrhau bod digon o gyfleoedd i siaradwyr newydd ymarfer eu sgiliau Cymraeg a'i defnyddio'n gymdeithasol er mwyn dod yn rhugl.
2. sicrhau bod siaradwyr sydd eisoes yn rhugl yn ymddwyn fel catalyddion ar gyfer defnydd gan siaradwyr newydd fel rhan o fywyd bob dydd, er mwyn hwyluso eu cyfranogiad y tu hwnt i'r cyd-destunau sydd wedi eu neilltuo ar eu cyfer.

Byddwn felly'n datblygu amrywiaeth o ymyriadau – o ledaenu negeseuon i siaradwyr rhugl ynghylch ymddygiadau craidd gyda siaradwyr newydd [pethau syml i'w gwneud a'u hosgoi], sicrhau ymrwymiad siaradwyr rhugl i roi o'u hamser i wella sgiliau a hyder siaradwyr newydd, gan bontio sesiynau addysg oedolion a defnydd anffurfiol yn y gymuned.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## Y GWEITHLE

- Tyfu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd a gan y gymuned fusnes

### 1. Hybu gweithleoedd Cymraeg a dwyieithog

Gyda phobl yn fwy symudol, daw mannau lle mae pobl yn treulio cyfran benodol o'u hamser yn rhai allweddol i'w targedu.  Un o'r lleoedd hynny yw'r gweithle'n gynyddol ddylanwadol o safbwynt cyfleoedd i ddefnyddio, ymarfer a dysgu sgiliau Cymraeg fel rhan o fywyd bob dydd.

Gall y byd gwaith fod yn rhan bwysig o ddatblygiad ieithyddol unigolion, boed yn siaradwyr rhugl sydd wedi caffael y Gymraeg yn y teulu neu drwy addysg statudol, yn siaradwyr di-hyder sydd am loywi eu sgiliau a magu hyder, neu'n gyfle i siaradwyr newydd ddechrau ar eu taith drwy hyfforddiant dwys a chyfleoedd i ymarfer.  Byddwn felly'n cynyddu'r pwyslais ar y gweithle fel lleoliad strategol ar gyfer cynyddu defnydd ac annog mwy o gynllunio systematig i gydnabod sgiliau Cymraeg a'u defnyddio at ddibenion gwaith.  Rhan o'r cynllunio hwn fydd hwyluso defnydd yn y gweithle drwy dechnoleg ac adnoddau Cymraeg.

Yn y sector cyhoeddus mae deddfwriaeth yn golygu bod mwy o angen am staff â sgiliau Cymraeg, a fydd nid yn unig yn gallu darparu gwasanaethau ond hefyd yn golygu bod rhagor o bobl sy'n medru'r Gymraeg yn gweithio i sefydliadau penodol.  Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn rhoi hawl i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg a chael darpariaeth Gymraeg oddi mewn i'r sefydliadau hyn.

Mae rhai cyrff eisoes yn arwain y ffordd yn hyn o beth, ac yn gosod y Gymraeg fel iaith weinyddol swyddogol, gan greu'r galw am sgiliau Cymraeg. Mae profiad yn dangos mai'r ffordd fwyaf effeithlon o wneud hyn yw drwy recriwtio sgiliau dwyieithog o'r cychwyn cyntaf, gyda hyfforddiant yn helpu i lenwi bylchau. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cynllunio'r gweithlu mewn ffordd ddeallus a strategol.

Er pwysiced y sector cyhoeddus, mae gweithleoedd sector preifat yn cyflogi cyfran uchel o bobl oedran gwaith Cymru ac yn hanfodol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos pobl ifanc, fel eu bod yn gweld gwerth i'w sgiliau dwyieithog ac yn cael cyfleoedd i'w defnyddio yn eu bywydau proffesiynol.

DRAFFT: CYFRINACHOL 2017

Mae tystiolaeth o wledydd eraill hefyd yn awgrymu y gall cyflwyno hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle fod yn arbennig o effeithiol yn achos siaradwyr newydd ac fel ffordd o gyflwyno'r iaith i fewnfudwyr.

Byddwn felly yn cefnogi darpariaeth hyfforddiant ar gyfer y gweithlu sydd nid yn unig yn hyfforddi staff mewn lleoliadau addysg neu hyfforddiant penodol, gan gynnwys cefnogi cyrsiau dwys, ond yn mynd â'r hyfforddiant at y gweithleoedd eu hunain. Bydd yr ymyriadau hyn yn cynnwys gwersi i greu siaradwyr newydd a sesiynau gloywi i wella sgiliau siaradwyr llai hyderus. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth iaith ymysg rheolwyr, arweinwyr a pherchnogion.

## 2. Y Gymraeg yn y byd busnes

Am fod pobl yn fwy tebygol o ymwneud â busnesau nag â chyrff cyhoeddus, mae ganddynt ran dylanwadol i'w chwarae o safbwynt nid yn unig rhoi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd, ond o safbwynt cynyddu statws a bri yr iaith. Y mwyaf o ddefnydd o'r Gymraeg gan fusnesau – drwy'r gwasanaethau maent yn darparu, a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed – y mwyaf o ddefnydd maen nhw'n ei ysgogi a'r mwyaf o werth a roddir ar y Gymraeg fel sgil.

Bydd ein dulliau yn amrywio o ddeddfwriaeth a hyrwyddo, fel yn achos y sector cyhoeddus, i annog defnydd gwirfoddol, er enghraifft yn y sector preifat. Y nod gyda phob gweithle fydd gwella ymwybyddiaeth rheolwyr a staff o'r hyn y gall sgiliau Cymraeg ei ychwanegu i'r busnes, a'u dealltwriaeth o sut i fanteisio ar y sgiliau hyn.

Mae ymchwil[6] yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau neu ddeunydd gan gwmni dwyieithog, ac yn fwy tebygol o aros yn ffyddlon i'r gwasanaethau hynny. Gall y neges hon fod yn eithriadol o bwerus fel ffordd o gymell busnesau sy'n gwasanaethu ardaloedd lle mae nifer uchel o siaradwyr Cymraeg, gan feithrin gwell perthynas rhwng cwmnïau a chymunedau.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol i rai diwydiannau, er enghraifft yr economi ymwelwyr, gydag ymchwil yn awgrymu bod y Gymraeg yn dod â manteision penodol i fusnesau twristiaeth fel pwynt gwerthu unigryw, fel adnodd i gyfoethogi profiad yr ymwelwyr, ac fel dull o greu naws lle. Daw hyn yn ei dro â manteision economaidd, cymunedol, ac yn datblygu'r Gymraeg fel adnodd.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

[6] https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/about-us/policy/policy-research-topics/citizens-advice-cymru-wales-policy-research/english-by-default-understanding-the-use-and-non-use-of-welsh-language-services/

Am fod dwyieithrwydd a gwerthfawrogi diwylliannau gwahanol yn rhan bwysig o strategaethau marchnata busnesau llwyddiannus ledled y byd, gan gryfhau brandiau cwmnïau a'u gwneud yn fwy perthnasol i gwsmeriaid lleol, byddwn yn annog ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel erfyn marchnata ac i hyrwyddo'r manteision y gall ddwyieithrwydd eu rhoi i fusnesau.

Mewn rhai achosion, yr her fydd helpu busnesau i gynllunio'u darpariaeth Gymraeg o'r dechrau, er enghraifft drwy gynllunio arwyddion dwyieithog, ymgyrchoedd hysbysebu a marchnata sy'n cymryd ystyriaeth o anghenion cynulleidfaoedd Cymraeg, gwella'r profiad o'r cynnyrch. Byddwn yn annog gweithleoedd i gydnabod y Gymraeg fel sgil wrth darparu hyfforddiant a chynnal ymgyrchoedd recriwtio fel bod y Gymraeg yn cael ei chydnabod fel sgil.

Mewn ardaloedd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg, efallai y bydd yr her yn wahanol. Yma byddwn yn canolbwyntio ar gael busnesau i weld potensial yr hyn sydd gyda nhw'n barod, ar cyfle sydd ganddynt i ddatgloi potensial y gweithlu dwyieithog sydd ganddynt yn barod ac elwa'n llawn ar eu hadnoddau dynol o safbwynt y Gymraeg.

Byddwn hefyd yn gweithio gydag arweinwyr busnes i wella'u dealltwriaeth o ddwyieithrwydd a'u hymwybyddiaeth o'r hyn sydd ynghlwm wrth yr iaith.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## GWASANAETHAU

- Mynd â gwasanaethau Cymraeg at y defnyddiwr, yn hytrach na bod y defnyddiwr yn gorfod canfod y gwasanaeth, drwy gynllunio'r gweithlu a newid meddylfryd

Rydym am weld cynnydd yn yr arlwy a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a bod unigolion yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn naturiol, boed wyneb yn wyneb neu'n ddigidol.

Mae i hyn ddwy ochr – y cyflenwad o wasanaethau a chynnyrch Cymraeg ar y naill law, a'r galw amdanynt ar y llall.

Rydym yn sôn uchod am sut byddwn yn gweithio gyda busnesau i wella'u hymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r rhesymau dros gynnig arlwy Cymraeg. Ond nid yw bodolaeth gwasanaethau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrff cyhoeddus a busnesau yn gwarantu bod pobl yn mynd ati i fanteisio arnynt. Yn ogystal â darparu gwasanaethau Cymraeg mae angen i fusnesau a chyrff sector cyhoeddus hefyd wybod sut i sicrhau defnydd ohonynt. Mae hynny'n galw ar y corff i ddarparu mewn modd sydd wedi'i deilwra at anghenion y cwsmer.

Nid yw pobl yn dewis yr opsiwn Cymraeg oni bai ei bod yn hawdd iddynt wneud hynny. Felly mae'n hollbwysig nad oes unrhyw rwystrau a bod y cynnig Cymraeg yn digwydd yn rhagweithiol, yn amlwg, ac o ansawdd sy'n golygu nad yw unigolion yn teimlo eu bod yn cael gwasanaethau o ansawdd is na'r rheini a gynigir yn Saesneg. Mae'r sector iechyd a gofal eisoes yn cymryd camau i wreiddio'r cynnig rhagweithiol, ac rydym yn awyddus i hynny gael ei ehangu i sectorau eraill.

Yn y sector cyhoeddus, mae deddfwriaeth eisoes yn nodi cyfres o gamau i gyrff eu cymryd er mwyn lleihau'r rhwystrau hyn. Byddwn yn adeiladu ar y sylfaen hon drwy roi rhagor o ffocws ar hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod cymorth ymarferol ar gael i gyrff nad ydynt yn dod o dan y system reoleiddio. Byddwn yn lledaenu arferion da o safbwynt dulliau marchnata a dylunio gofodol er mwyn ei gwneud yn hawdd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn rhan bwysig o'n gwaith hyrwyddo, a byddwn yn datblygu cynlluniau pellach i farchnata a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg er mwyn cefnogi pobl i ddefnyddio'r iaith mewn ffyrdd ymarferol, creadigol a hwyliog.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

# THEMA 3: CREU AMODAU FFAFRIOL – ISADEILEDD A HINSAWDD

Mae dwy ran i'r bennod hon, sef hinsawdd ac isadeiledd. Eu nod yw creu'r amodau a'r amgylchiadau i'r iaith a'r bobl sy'n ei siarad ffynnu.

## Nodau:

10. **Cymdeithas ac economi**: cefnogi economi cymunedau Cymraeg - er mwyn rhoi'r dyfodol gorau posib iddynt mae ar bobl angen swyddi a chartrefi o ansawdd da i fyw neu ddychwelyd iddynt

11. **Cymru a'r byd**: sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n cenhadaeth i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru

12. **Newid ymddygiad ieithyddol**: normaleiddio defnydd cynyddol o'r Gymraeg drwy farchnata, manteisio ar dechnegau newid ymddygiad o feysydd eraill, a sicrhau bod y Gymraeg yn elfen annatod o naratif / arlwy diwylliannol Cymru bob amser

13. **Cynllunio ieithyddol**: gwreiddio cynllunio ieithyddol a hybu iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, gan ddeall yn well a chefnogi dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg

14. **Seilwaith y Gymraeg**: sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminolegau, proffesiwn cyfieithu, adnoddau digidol) yn gyfoes ac yn parhau i ddatblygu

15. **Deddfwriaeth**: sicrhau bod sylfaen ddeddfwriaethol y Gymraeg yn addas ac yn gyfredol.

## Cefndir

Mae gwella'r hinsawdd ar gyfer y Gymraeg yn golygu cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl sy'n ei siarad, ac ewyllys da tuag ati ymysg y rheini nad ydynt yn ei siarad, er mwyn ei gwneud yn rhan arferol o fywyd bob dydd i bawb yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod pobl yn teimlo'n gyfforddus yn dechrau sgwrs yn Gymraeg, y gallant ddisgwyl derbyn gwasanaethau yn Gymraeg, a bod pobl yn gyfarwydd â chlywed a gweld y Gymraeg.

Mae'r Gymraeg yn fwy na sgil, neu'n rhywbeth sy'n dod â gwerth masnachol yn y farchnad swyddi. Mae'n rhan o'n hunaniaeth a'n ffordd o feddwl. O'r herwydd mae hefyd yn rhan o'r hyn sy'n ein gwneud ni'n hyderus, yn fentrus ac yn uchelgeisiol.

Ein gweledigaeth yw bod y Gymraeg yn agwedd arferol ar fywyd bob dydd, bod ewyllys da *tuag at* yr iaith yn ogystal ag *defnydd* cynyddol ohoni, a'i bod yn berthnasol i bawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg, Saesneg neu iaith arall, ac ennyn gwerthfawrogiad ohoni ymysg pobl sy'n symud i Gymru.

Mae gwella'r **isadeiledd** yn golygu rhoi'r iaith ar seiliau cadarn, gan ddatblygu'r pethau y mae eu hangen ar unrhyw iaith er mwyn iddi ffynnu. Mae hyn yn cynnwys y seilwaith economaidd, am fod yr economi'n greiddiol i greu'r amgylchiadau cymdeithasol i siaradwyr Cymraeg aros yn eu cynefinoedd neu ddychwelyd iddynt. Mae hefyd yn golygu caniatáu i bobl sy'n symud barhau i gyfrannu drwy'r Gymraeg, naill ai yng Nghymru neu'r tu hwnt.

Mae datblygu seilwaith cadarn a chyfoes i gefnogi'r iaith ei hun hefyd yn hanfodol er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, gwella eu hyder i wneud hynny, a hwyluso ei defnydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae adnoddau digidol, cyfryngau iach ac amrywiol, proffesiwn cyfieithu sy'n manteisio i'r eithaf ar dechnoleg, ac adnoddau ieithyddol (yn eiriaduron, terminolegau, a chorpora) sy'n adlewyrchu ac yn cynnal statws y Gymraeg fel iaith fyw, yn hollbwysig, a hynny ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar bob lefel.

Ac er mwyn sicrhau bod gennym y dystiolaeth i fesur cynnydd yn erbyn y targedau yn y strategaeth hon a'r polisïau ddaw oddi tani, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'r theorïau a'r wybodaeth ddiweddaraf am y maes yng Nghymru ac yn rhyngwladol, bydd casglu data a gwaith ymchwil yn gwbl hanfodol.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## CYMDEITHAS AC ECONOMI

- Cefnogi **isadeiledd economaidd-gymdeithasol** cymunedau Cymraeg er mwyn rhoi'r dyfodol gorau posib iddynt mae ar bobl angen swyddi a chartrefi o ansawdd da i fyw neu ddychwelyd iddynt

### 1. Datblygu'r economi er mwyn rhoi troedle cadarn i gymdeithas Gymraeg

Rhoddwyd sylw eisoes i bwysigrwydd cynnal a thyfu cymunedau lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn bwysig am sawl rheswm. Yn y cymunedau hyn y ceir y canrannau uwch o siaradwyr Cymraeg sy'n disgrifio'u hunain fel siaradwyr rhugl, ac yma y ceir y canrannau uwch o siaradwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg amlaf.

Tra bo pob cymuned yn unigryw, mae yna rai nodweddion cyffredin i'r cymunedau hyn. Yn eu plith y mae symudoledd poblogaeth uchel – siaradwyr Cymraeg ifanc yn gadael, a mewnlifiad o bobl hŷn ar y cyfan. Mae nifer o'r ardaloedd hyn yn wledig, ac yn ddibynnol i raddau helaeth ar y diwydiant amaeth, y diwydiant bwyd a thwristiaeth. Yma hefyd y gwelwn drefi marchnad, a threfi prifysgol sydd â dibyniaeth uchel ar y sector gyhoeddus e.e. iechyd, llywodraeth leol. A cheir yn yr ardaloedd hyn hefyd bocedi o ddifreintedd a thlodi gwledig, gyda chyflogau cyfartalog ymhlith yr isaf yn y Deyrnas Unedig.

Yn aml, nodweddir y disgwrs am ddyfodol cymunedau Cymraeg gan yr angen i'w gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac, o ganlyniad, gan y meddylfryd y dylid felly eu gwarchod rhag newid a thyfu yn economaidd. Tra y gellir deall y rhesymau am y meddylfryd hynny, mae'n ddyletswydd ar y Llywodraeth i hybu twf economaidd er mwyn gwasgaru llewyrch ar draws Cymru. Ni allwn chwaith ddisgwyl i gymunedau Cymraeg aros yn statig tra bo natur cymdeithas yn newid. Gan hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd datblygu economi ffyniannus, gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys yr ardaloedd a nodwyd.

Rydym am weld swyddi da sy'n galluogi pobl ifanc i aros neu, os ydynt yn gadael am brofiadau bywyd gwahanol, allu dychwelyd i'r ardaloedd hyn i fyw, a magu teulu. Mae angen mwy na swyddi i gadw pobl yn yr ardaloedd hyn, a'u denu yn ôl. Mae angen hefyd gyrfaoedd da i ganiatáu i bobl symud o swydd i swydd.

Un elfen greiddiol o hyn yw'r diwydiant amaeth, a bydd gwarchod buddiannau'r diwydiant yn sgil ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn flaenoriaeth i ni. Elfen arall yw swyddi yn y sector cyhoeddus, a byddwn am weld cyfran deg o swyddi yn y sector cyhoeddus yn cael eu lleoli mewn

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

ardaloedd Cymraeg – ardaloedd a nodweddir gan fodolaeth gweithlu dwyieithog parod. Rydym hefyd am sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn a thu hwnt yn cael pob anogaeth i fentro a'u bod yn cael eu targedu o fewn rhaglenni prif ffrwd sy'n cefnogi entrepreneuriaeth. Gwelwn hefyd gyfle i ddysgu mwy ynghylch potensial mentrau cydweithredol cyfrwng Cymraeg er budd cymunedol.

Mae gwerth y Gymraeg i'r economi yn cynnwys y diwydiant iaith – er enghraifft addysg, cyfieithu, cynllunio ieithyddol, gwasanaethau ymgynghorol, gwaith corpws a thechnoleg iaith – sydd oll yn troi'n uniongyrchol o amgylch yr iaith. Mewn meysydd eraill – fel diwylliant, y sector ddigidol, y cyfryngau a thwristiaeth – gall yr iaith fod yn elfen annatod o'r ddarpariaeth. Gall y Gymraeg hefyd ymddwyn fel pwynt gwerthu unigryw, gyda llawer o frandiau eisoes yn defnyddio'r iaith yn llwyddiannus. Mae cyfle yn yr ardaloedd Cymraeg i wneud mwy o'r cyfleodd a gynigir gan y Gymraeg, a bodolaeth gweithlu dwyieithog.

Ni allwn reoli pob ffactor sy'n dylanwadu ar dwf economaidd. Ond mae yna bethau y gallwn eu rheoli – sgiliau, bri'r Gymraeg, lleoliad swyddi cyhoeddus, clystyrau, a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel sgil yn sgîl datblygiadau mawr a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r sgiliau hynny.

### Datblygiadau sy'n sensitif i sefyllfa'r Gymraeg

Tra bod angen datblygu i greu twf economaidd, ni allwn ragweld beth fydd effaith newidiadau mawr ee i'r diwydiant amaeth o ran cadw siaradwyr Cymraeg yn y cadarnleoedd, nac ychwaith beth fydd effaith datblygiadau mawr [ee Wylfa], sydd â photensial i ddod â llewyrch economaidd, ar ddwysedd y siaradwyr Cymraeg. Yr hyn sydd yn glir, fodd bynnag, yw ei bod yn bwysig fod y Gymraeg yn cael ystyriaeth ganolog a deallus.

Drwy fod yn ymwybodol o egwyddorion cynllunio ieithyddol perthnasol, dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at hyfywedd y Gymraeg drwy greu'r amodau i gymunedau cynaliadwy ffynnu. Gall wneud hynny drwy feithrin perthynas gytbwys rhwng cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith a'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael yn y cymunedau hyn.

Caiff y penderfyniadau a wneir ynghylch math, graddfa ac union leoliad datblygiadau oddi mewn i gymuned benodol ddylanwad mawr ar ddefnydd iaith, ac yn sgil hynny ar gynnal a chaffael iaith.  Mae hyn yn galw am gryfhau'r berthynas rhwng cynllunio ieithyddol a chynllunio gofodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir y dylai ystyriaethau mewn perthynas â'r Gymraeg fwydo i mewn i'r broses o baratoi cynlluniau datblygu awdurdodau

DRAFFT: CYFRINACHOL 2017

lleol, ac mae canllawiau ar gael i gynorthwyo awdurdodau cynllunio yn hyn o beth.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## CYMRU A'R BYD

- Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n cenhadaeth i greu pontydd rhwng **Cymru a'r byd** a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru

### 1. Creu pontydd rhwng Cymru a'r byd

Mae'r Gymraeg yn rhan o blethwaith cyfoethog o ieithoedd sydd ers cyn hanes wedi datblygu a chyd-fodoli, y naill yn dylanwadu ar y llall. Mae'n rhannu tiriogaeth gydag un o ieithoedd mwyaf llwyddiannus yr oes fodern, yn un o nifer o ieithoedd lleiafrifol sy'n cyfrannu at gyfoeth diwylliannol Prydain, Ewrop, a'r byd.

Mae dysgu ieithoedd eraill yn ehangu gorwelion, yn cyflwyno dysgwyr i ddiwylliannau eraill ac yn rhoi'r profiadau a'r sgiliau iddynt lwyddo yma a thramor.

Mae cefnogi hynny'n golygu codi'n golygon ac edrych allan i'r byd, a sylweddoli nid yn unig bod dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn gyflwr i fwyafrif pobl y byd, ond bod y Gymraeg mewn sefyllfa gref o'u chymharu â llawer o ieithoedd eraill.

Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r Gymraeg yn fodd o gynyddu'n hymdeimlad o berthyn a'n gwneud yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd. Mae dealltwriaeth o bwysigrwydd yr iaith i hunaniaeth y genedl yn golygu bod gan bobl barch tuag ati, ymrwymiad emosiynol iddi, ac felly'r awydd i'w gweld yn parhau ac yn ffynnu, p'un a ydyn nhw'n ei siarad ai peidio. Yn y pen draw, pan fydd rhywun yn gofyn "pam fo'r Gymraeg yn bwysig?", rydym am alluogi pobl i ateb yn onest – "am ei fod yn rhan o bwy ydyn ni."

Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cyfrannu at broffil y Gymraeg y tu hwnt i ffiniau Cymru. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig cynnal ein perthynas agos â chymunedau Cymraeg dramor, er enghraifft yn Y Wladfa, a phontio gyda phobl sydd wedi gadael Cymru er mwyn iddynt allu parhau i gyfrannu at ein cymuned a'n heconomi drwy'r Gymraeg. Mae hefyd yn golygu magu perthynas ag ieithoedd eraill, yn arbennig gwledydd â chanddynt ieithoedd lleiafrifol. Rydym ni yng Nghymru wedi dysgu gwersi gan gynllunwyr ieithyddol o sawl man, ac wedi creu datrysiadau sy'n cael eu harddel gan eraill, a bydd hynny'n parhau.

I'r perwyl hwnnw byddwn yn arwain drwy esiampl, gan hyrwyddo'r Gymraeg o bersbectif llywodraethol ar lwyfan ryngwladol, er mwyn cryfhau a hwyluso'r ffordd y mae sefydliadau ledled Cymru yn cyflwyno'r Gymraeg i'w cwsmeriaid ac yn cofleidio'r manteision o fod yn wlad ddwyieithog.

DRAFFT- CYFRINACHOL 2017

## 2. Croesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru

O wreiddio ymwybyddiaeth o le'r Gymraeg yn y byd, a helpu i ddeall a gwerthfawrogi diwylliannau a phobl o'r tu hwnt i'n ffiniau, gall y Gymraeg hefyd ein helpu i groesawu pobl sy'n dod i fyw yng Nghymru a'u cynnwys fel rhan o'n cymdeithas.

Mae ein gweledigaeth o normaleiddio ac adeiladu ar ewyllys da tuag at yr iaith yn arbennig o bwysig wrth ystyried goblygiadau mewnfudo, ac wrth gyfathrebu â newydd-ddyfodiaid byddwn yn pwysleisio nad oes angen bod yn siaradwr rhugl er mwyn cyfrannu at a chefnogi'r weledigaeth o weld y Gymraeg yn ffynnu.

Mae disgwrs cadarnhaol a chefnogaeth ymarferol yn hollbwysig yn hyn o beth, er mwyn creu'r disgwyliad ymysg mewnfudwyr bod angen gwneud ymdrech i ddysgu'r iaith a'i pharchu. Mae angen cyfleu bod y Gymraeg yn rhywbeth neilltuol am Gymru, yn rhywbeth cynhwysol, hyblyg all ddod â phobl ynghyd a chreu ymdeimlad o berthyn.

Mae mewnfudo yn her ac yn gyfle i'r Gymraeg, lle gall cynllunio'n ofalus gynyddu'r ewyllys at yr iaith yn ogystal â nifer y bobl sy'n penderfynu ei dysgu. Bydd hyn yn golygu annog rhieni a theuluoedd mewnfudol nad ydynt yn siarad yr iaith i gefnogi integreiddiad eu plant drwy fabwysiadu agwedd gadarnhaol at y Gymraeg.

Bydd defnyddio'r gweithle i gyflwyno'r Gymraeg i fewnfudwyr a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Gymraeg a'i diwylliant, ac i roi cyfleoedd iddynt ddysgu ac ymarfer yr iaith, yn ddull pwysig arall.

A bydd agweddau a chyfraniad siaradwyr Cymraeg rhugl yn chwarae rhan bwysig. Yn yr un modd ag unrhyw siaradwyr newydd [gw. tudalen x], bydd angen datblygu rhaglen i siaradwyr Cymraeg fod yn weithgar yn y maes dysgu anffurfiol a chyfrannu at ymdrechion mewnfudwyr i ddysgu'r iaith megis cynllun *Voluntariat per la Llengua* Nghatalwnia.

DRAFFT- CYFRINACHOL 2017

## NEWID YMDDYGIAD IEITHYDDOL

| |
|---|
| Adeiladu ar **ewyllys** da tuag at yr iaith drwy farchnata, manteisio ar dechnegau newid ymddygiad perthnasol, normaleiddio, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau bod y Gymraeg yn elfen annatod o naratif / arlwy diwylliannol Cymru bob amser |

### 1. Newid ymddygiad

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod agweddau cadarnhaol at y Gymraeg eisoes yn bodoli, ond bod bwlch rhwng yr agweddau hyn a nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg. Mae gwaith i'w wneud felly i gau'r bwlch hwn, a sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu.

Mae nifer o ffyrdd o gynnal, newid ac annog ymddygiad. Ar y lefel fwyaf syml, gellir codi ymwybyddiaeth pobl o fodolaeth cyfleoedd a gwasanaethau, cyfleu negeseuon ynghylch pam y dylid eu defnyddio, a rhoi gwybodaeth ynghylch ble a sut y mae modd defnyddio. Ond nid yw codi ymwybyddiaeth, ar ei ben ei hun, yn ddigon. Bydd y technegau rydym yn eu defnyddio i gynyddu defnydd o'r Gymraeg wedi'u seilio ar y wyddoniaeth briodol o feysydd eraill sydd wedi defnyddio technegau newid ymddygiad (e.e. iechyd, economeg ayb).

Byddwn hefyd yn ceisio dealltwriaeth well o'r hyn a allai gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd lla nad ydynt arfer yn gwneud hynny. Mae sut yn union y cynigir gwasanaeth Cymraeg, a safon y gwasanaeth hwnnw yn feysydd y gellir mynd i'r afael arnynt yn gyflym, a chynorthwyo darparwyr gwasanaethau i gynnig dewisiadau yn y ffordd fwyaf ragweithiol. Byddwn yn parhau i weithredu'n unol â'r ymchwil ddiweddaraf a lledaenu arfer gorau i helpu cyrff i wneud hynny. Y nod yn y pen draw yw, drwy ddefnyddio'r technegau priodol, bydd y gwasanaethau Cymraeg yn hyrwyddo eu hunain.

Mae newid ymddygiad mewn meysydd eraill yn fwy cymhleth, e.e. mae effeithio ar drosglwyddiad iaith yn y cartref (gweler tud X) yn galw am gyfres o ymyraethau

Bydd angen i'n dulliau feithrin ymdeimlad o gynnig cyfle mewn modd rhagweithiol, heb fod neb yn gorfod gofyn am unrhyw wasanaeth Cymraeg a helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd. Rhaid sicrhau bod y Gymraeg yn elfen naturiol o fywyd unigolion yn hytrach nag yn cael ei gweld fel dyletswydd neu'n rhywbeth a orfodir.

Nid yw creu darpariaeth neu wasanaeth yn ei hun yn golygu y bydd pobl yn ei ddefnyddio, a hynny am fod nifer o ffactorau cymhleth yn llywio'n hymddygiad

DRAFT CYFRINACHOL 2017

ieithyddol. Rydym yn dysgu normau ymddygiad o oedran cynnar iawn, a thrwy gydol ein bywydau yn cymryd ciws isymwybodol a mwy amlwg ynghylch lle, pryd a sut y dylem ddefnyddio'r Gymraeg, gan asesu pob sefyllfa ieithyddol mewn amrantiad yn unol â nifer o ffactorau sy'n gorgyffwrdd.

Un o sylfeini'r ymagwedd ymddygiadol at bolisi yw cydnabyddiaeth o natur leoledig ein hymddygiad, hynny yw ein bod yn gwneud dewisiadau o fewn cyd-destun neu amgylchedd penodol. Mae hynny'n golygu peidio â dibynnu ar lefel hyder unigolyn i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu defnyddio, a rhoi'r cyfrifoldeb i'r darparwr dros wireddu hawliau siaradwyr. Byddwn yn cynllunio dulliau gweithredu, e.e. sut mae saernïo, cofio a normoaleiddio dewis iaith.

Yn ogystal â'r camau uchod, bydd y dulliau hyn yn cynnwys marchnata a chyfathrebu, yn ogystal ag ymchwil ar sail data y byddwn yn ei gasglu i segmenteiddio a thargedu cynulleidfaoedd penodol, a sicrhau bod negeseuon cyson a chadarnhaol yn eu cyrraedd drwy'r sianeli priodol.

Mae sicrhau'r neges gywir, mewn ffordd briodol, yn bwysig ar gyfnodau pontio hynny sy'n dyngedfennol o ran penderfyniadau ieithyddol. Ond sylweddolwn hefyd fod trafod wyneb yn wyneb yn gam y mae mawr angen ei wreiddio yn ein hymdrechion cynllunio ieithyddol. O ganlyniad, byddwn yn dwysáu'n gwaith ym myd ymwybyddiaeth iaith fel bo pob disgybl ysgol, yn ogystal â chael cyfle i ddysgu'r Gymraeg hefyd yn cael cyfleoedd ar hyd ei yrfa ysgol i drafod barn bersonol ynghylch lle'r Gymraeg yn y Gymru gyfoes.

### 2. Diwylliant – Naratif / Arlwy

Mae diwylliant yn ganolog i'n cymdeithas a'n hunaniaeth a'n hymdeimlad o fod yn genedl. Mae diwylliant yn grymuso, gan ddod â hyder, sgiliau a chyflogadwyedd, sydd oll yn greiddiol i'r strategaeth hon.  Mae hefyd yn gynyddol bwysig i'n heconomi, ac mae'n gwneud cyfraniad hollbwysig i fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg ac adfywio.

Am fod cysylltiad annatod rhwng y Gymraeg a'i diwylliant, bydd y "gwreiddio arferion" y sonnir amdano ar dudalen x yn cynnwys nid yn unig y Gymraeg ond ymwybyddiaeth o'i diwylliant, er mwyn rhoi cyd-destun i'r iaith sy'n mynd y tu hwnt i ganfyddiad ohoni fel sgil. Gall ymwybyddiaeth o gyfraniad y Gymraeg at ddiwylliant byd-eang (er enghraifft, y Mabinogi neu gymeriadau Arthur a Myrddin) arwain at falchder, ymwybyddiaeth o berthnasedd yr iaith heddiw, ac ysgogiad i siarad a defnyddio.

Mae gan y sector diwylliant ei hun rôl bwysig i gefnogi darpariaeth gweithgareddau Cymraeg, ac i ddatblygu digwyddiadau a gweithgareddau

DRAFT - CYFRINACHOL 2017

penodol sy'n dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o'n diwylliant Cymraeg unigryw. Dylai hefyd sicrhau bod diwylliant Cymraeg, a diwylliant Cymru, wedi'u plethu i mewn i unrhyw ddigwyddiadau pwysig yn rhan o sut yr ydym yn cyflwyno ein hunain i'r byd.

Gall twristiaeth chwarae rhan flaenllaw o safbwynt canfyddiadau am y Gymraeg, gan ei fod yn ffordd o gyfleu delwedd o Gymru, ei hiaith a'i diwylliant nid yn unig i bobl o dramor, ond i bobl Cymru eu hunain. Fel unrhyw genedl, rydym yn dueddol o'n gweld ein hunain i raddau drwy lygaid pobl eraill.  Os am normaleiddio'r Gymraeg a newid agweddau ati yng Nghymru, rhaid iddo fod yn rhywbeth nad ydym yn ei roi o'r neilltu pan fydd ymwelwyr yn dod.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## CYNLLUNIO IEITHYDDOL

- Gwreiddio **cynllunio ieithyddol** a hybu iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol; deall yn well a chefnogi dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg

### 1. Hybu Iaith yn rhanbarthol a lleol

Er mwyn cynllunio'n ieithyddol yn effeithiol, mae angen deall yr hyn sy'n digwydd mewn gwahanol rannau o Gymru a chynllunio ymyriadau yn unol â hynny.

Rydym eisoes yn cynllunio ar y lefelau cenedlaethol ac yn targedu ardaloedd lleol penodol. Serch hynny mae awgrym mai bwlch yn y cynllunio hwn yw'r lefel ranbarthol, a all ymddwyn fel pont i fabwysiadu polisïau cenedlaethol a'u haddasu ar gyfer ardaloedd penodol ar sail gwybodaeth fwy trylwyr o ffactorau lleol nag sydd gan lywodraeth genedlaethol.

Bydd hynny'n caniatáu ar gyfer teilwra ymyriadau [ee pwyslais ar y gweithle, gyrfaoedd a'r economi, hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle, perthynas rhwng cymdeithas Gymraeg a'r economi leol, ac ati], gan gynllunio'n strategol yn rhanbarthol ochr yn ochr a datblygiadau eraill sydd ar y gweill ar y lefel honno.

### 2. Deall anghenion siaradwyr Cymraeg [Cynllunio Ieithyddol]

Mae llawer o'r ymyraethau rydym yn eu trafod yn y strategaeth hon yn galw am ddealltwriaeth o gynllunio ieithyddol ar wahanol lefelau. Er mwyn cynllunio a gweithredu'n effeithiol yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, mae angen pobl greadigol a thalentog yn y mannau cywir, sydd â dealltwriaeth o theorïau ac egwyddorion cynllunio ieithyddol, i yrru pethau yn eu blaenau.

Mae cynllunwyr ieithyddol yn bodoli eisoes mewn nifer o wahanol fannau, boed yn wahanol gyrff cyhoeddus, yn y byd academaidd neu'n gweithredu ar lawr gwlad. Mae nifer o'r rhain yn ystyried eu hunain yn gynllunwyr ieithyddol proffesiynol. Mae'n bosib nad yw eraill yn ystyried eu hunain yn gynllunwyr ieithyddol, ond bod ganddynt ddealltwriaeth a dylanwad i wneud gwahaniaeth mawr.

Yn hynny o beth mae arweinwyr yn hollbwysig yn y darlun hwn. Maen nhw'n ganolog i feithrin amgylchedd lle mae defnyddio'r Gymraeg yn cael ei annog ar bob lefel, boed ar y lefel wleidyddol, yn ogystal â chymunedau, gwasanaethau cyhoeddus, y gweithle a'r economi. Mae arweinyddiaeth gref hefyd yn bwysig i yrru'r strategaeth yn ei flaen a meithrin partneriaethau newydd.

DRAFFT: CYFRINACHOL 2017

Rydym felly am i arweinwyr sefydliadau gymryd mwy o gyfrifoldeb am y Gymraeg ac i'r gwaith o gynllunio ar gyfer yr iaith fod mor ganolog i ddatblygiad economaidd ag ydyw i weithgareddau diwylliannol.

## Gwerthuso ac Ymchwil

Er mwyn gwireddu amcanion y strategaeth bydd angen sail dystiolaeth gadarn, ac ymrwymiad i werthuso effaith y rhaglenni a'r ymyraethau a gaiff eu rhoi ar waith.  Byddwn yn llunio rhaglen ymchwil a gwerthuso i ddarparu sail ar gyfer hyn. Ers cyhoeddi Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg (2013) rydym wedi archwilio dulliau o fesur effaith ein strategaeth, ac wedi ychwanegu at ein sail dystiolaeth. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn drwy roi sylw,  wrth i raglenni gael eu cynllunio, i'r dulliau mwyaf addas o werthuso eu heffaith.  Bydd ein rhaglen ymchwil hefyd yn golygu parhau i adnabod a llenwi bylchau yn ein gwybodaeth ystadegol am y Gymraeg a'i siaradwyr. I gefnogi ein nod o ddeall mwy am brofiadau ieithyddol siaradwyr ar hyd eu taith bywyd bydd ein rhaglen ymchwil yn rhoi sylw penodol i gasglu a dadansoddi data am unigolion dros amser. Drwy gyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol ein nod yw cyfoethogi'r darlun sydd gennym o brofiadau ac arferion ieithyddol siaradwyr wrth iddynt symud drwy wahanol gyfnodau eu bywyd, gyda hyn yn ei dro yn ein galluogi i ddatblygu polisi ystyrlon a chadarn.  Yn y Fframwaith Gwerthuso gwreiddiol cafwyd ymgais i sicrhau fod ein dulliau ymchwil a mesur effaith yn adlewyrchu ein dealltwriaeth o ddeinameg ymddygiad ieithyddol a chymdeithaseg iaith. Byddwn yn parhau i fireinio a datblygu'r ddealltwriaeth hon.

Mae gwireddu hyn yn ddibynnol ar gyfraniad nifer helaeth o asiantaethau a sefydliadau, gyda'r sector addysg uwch yn chwarae rôl allweddol. Rydym yn cydnabod fod y angen o hyd i ddatblygu capasiti ac arbenigedd i gynnal ymchwil am y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Gan weithio mewn partneriaeth, a chan annog sefydliadau eraill i fanteisio ar gyfleoedd i gryfhau isadeiledd ymchwil, ein nod fydd cyfrannu at feithrin arbenigwyr ac ymchwilwyr y dyfodol. Mae gennym fel Llywodraeth gyfraniad o ran hyrwyddo dealltwriaeth o'r berthynas rhwng tystiolaeth a datblygu polisi effeithiol. Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith yn amlygu'r cyswllt hwn, gan annog ein partneriaid a llunwyr polisi i ddod yn ddefnyddwyr ymchwil deallus a chwilfrydig.

DRAFT - CYFRINACHOL 2017

## SEILWAITH IEITHYDDOL A DIGIDOL

- Sicrhau bod **seilwaith ieithyddol** a digidol y Gymraeg yn gyfoes ac yn parhau i ddatblygu

Er mwyn creu'r amgylchiadau i alluogi cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith, mae angen seilwaith cadarn arni. Bydd buddsoddiad hirdymor yn y seilwaith hwn yn parhau'n flaenoriaeth er mwyn rhoi'r iaith ar sylfaen gadarn at y dyfodol.

### 1. Technoleg

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhoi sylw i'r materion sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Gymraeg ym maes technoleg a chyfryngau digidol ers 2012. Mae ein cynllun grantiau ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg wedi bod yn llwyddiannus o ran creu prosiectau arloesol,  a chreu mwy o ymwybyddiaeth o dechnoleg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n hollbwysig buddsoddi'n gyson mewn datblygiadau technolegol – maes lle mae'r dirwedd yn newid o hyd – er mwyn sicrhau bod modd defnyddio'r Gymraeg mewn cymaint o gyd-destunau â phosibl a thrwy lais yn ogystal â bysellfwrdd. Yn y dyfodol, dylwn ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn datblygiadau seilwaith technoleg iaith ar raddfa fawr, fel technoleg llais-i-destun Cymraeg a'r gallu i gyfieithu gyda pheiriannau.

Golyga hyn adnewyddu ein hymdrechion i gymell y cwmnïau mawr i wneud gwell defnydd o'r Gymraeg, a chefnogi ei datblygiad. Bydd lobïo a gweithio gyda chorfforaethau rhyngwladol i ystyried a darparu ar gyfer y Gymraeg hefyd yn ganolog i'n gweledigaeth.

Bron nad oes angen sôn mwyach am bwysigrwydd technoleg ynddi'i hun gan ei bod yn rhan mor annatod o bopeth rydym yn ei wneud. Felly pan fyddwn yn sôn am adnoddau addysg, er enghraifft, mae adnoddau digidol ymhlyg yn y darlun. Mae'r un peth yn wir am adnoddau i helpu siaradwyr Cymraeg yn y gweithle, cyfleoedd i ddefnyddio yn gymdeithasol, ac wrth ystyried gwasanaethau a chynnyrch Cymraeg. Ac yn yr un modd ag unrhyw adnoddau a gwasanaethau Cymraeg, mae angen sicrhau bod pobl yn gwneud defnydd o'r hyn sydd ar gael yn ddigidol.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg yn cael lle canolog mewn datblygiadau mawr ym maes technoleg, credwn fod potensial hefyd i ni yng Nghymru arwain y ffordd o safbwynt technolegau dwyieithog. Byddwn yn edrych ar ddatblygu achos economaidd dros fuddsoddi mewn

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

technoleg iaith gyda'r nod o gyfrannu at dwf y sector technoleg ddigidol yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Bydd yn parhau'n bwysig gweithio mewn partneriaeth gyda ieithoedd mewn sefyllfa gymdeithasol-ieithyddol debyg i ni, a manteisio ar gyfleoedd i arloesi ar y cyd.

## 2. Corpws, Geiriadura a Therminoleg

Mae ieithoedd yn esblygu'n barhaus ac yn adlewyrchu'r byd o'u cwmpas. Credwn fod angen cynnal seilwaith ieithyddol modern sy'n cynnwys corpora, geiriaduron, ac adnoddau terminoleg er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fodern a pherthnasol.

Mae corpora (h.y. casgliad mawr o destunau wedi'u hargraffu neu recordiadau sain) yn eithriadol o bwysig ar gyfer cyfieithwyr, geiriadurwyr a therminolegwyr, yn ogystal ag ym maes technoleg lle maen nhw'n hanfodol i greu meddalwedd ieithyddol. Gellid dadlau bod y ffocws hollbwysig hwn ar gorpws heb gael cymaint o sylw yng Nghymru yn y gorffennol ag mewn gwledydd eraill.

Ni ellir gor-bwysleisio ychwaith bwysigrwydd adnoddau geiriadurol o ansawdd uchel. Gall sicrhau dyfodol hirdymor prosiectau o'r fath arwain at ganlyniadau cadarnhaol pellach ar gyfer yr iaith, gan gynyddu gweladwyedd, a hwyluso cynhyrchu adnoddau o'r radd flaenaf ar gyfer dysgwyr a siaradwyr rhugl.

Yn ogystal â phrosiectau corpws, mae'n hollbwysig bod ffynonellau safonol o derminoleg yn bodoli sy'n ei gwneud yn haws defnyddio'r Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd bob dydd, gan gynnwys mewn meysydd arbenigol fel technoleg, y gyfraith, a'r byd addysg.

## 3. Y Proffesiwn Cyfieithu

Gyda'n gweledigaeth o wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn rhan normal o gynifer o agweddau ar fywyd â phosib, mae pwysigrwydd strategol y proffesiwn cyfieithu yn cynyddu. Er enghraifft, wrth i ragor o gyrff a sefydliadau ddarparu gwasanaethau Cymraeg – boed o'u gwirfodd neu o dan ddeddfwriaeth - mae angen cyflenwad digonol o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd.

Mae'r proffesiwn wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld y gwaith hwn yn parhau er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o gyfieithwyr proffesiynol sy'n cadw eu sgiliau'n

DRAFFT – CYFRINACHOL 2017

gyfoes, a bod strwythurau achredu a rheoleiddio cadarn yn eu lle i sicrhau ansawdd.  Bydd hyn yn golygu y gall cwmnïau a sefydliadau fod yn hyderus wrth chwilio am wasanaethau yn y maes, ac nad yw'r Gymraeg o ansawdd is na'r Saesneg.

Cyflymwyd a chysonwyd cyfieithu drwy ddefnyddio cofau cyfieithu. Mae angen cyfuno hyn gyda chyfieithu peirianyddol sy'n addas i'r cynnwys dan sylw. Er mwyn gwella cywirdeb, bydd angen systemau newydd sy'n defnyddio rhwydweithiau niwral a'r technegau diweddaraf. Yng Nghymru mae angen aros ar flaen y gad o ran cyfieithu peirianyddol, ac i'r proffesiwn fod yn ymatebol i anghenion sgiliau wrth iddyn nhw godi.

Ochr arall y geiniog yw gwella sgiliau a hyder pobl nad ydynt yn gyfieithwyr, a'u parodrwydd i ddefnyddio'r sgiliau hynny, fel bod rhagor o waith yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg ac yn ddwyieithog. Bydd addysg statudol ac anstatudol yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth, yn ogystal â chynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod gan gyflogwyr staff sy'n gallu ymdrin â dogfennau a chynhyrchu gwaith yn y ddwy iaith a'n bod yn ystyried cyfieithwyr y sefydliadau hynny yn rhan ganolog yn y broses o gynorthwyo eraill i ddrafftio dogfennau yn y Gymraeg.

## 4. Cyhoeddiadau a'r Cyfryngau

Mae gan ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus swyddogaeth hanfodol o ran adlewyrchu ac atgyfnerthu diwylliant Cymru a'r Gymraeg. Mae'n hanfodol bod hyn yn parhau a bod y ddarpariaeth honno yn cynyddu.

Mae swyddogaeth darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn arbennig o bwysig, oherwydd gwendid y sector cyfryngau print. Yn anffodus, prin yw'r ymdriniaeth â bywyd a chymdeithas Cymru – gan gynnwys ei diwylliant – ym mhapurau newydd y DU ac ar wasanaethau darlledu y DU, sef y prif allbynnau cyfryngau yng Nghymru. Nid yw'r ddelwedd o Gymru yng nghyfryngau'r DU yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol a chyfoeth ein gwlad.

Wrth edrych ymlaen, dylem ni bwyso am fwy o gynnwys a rhaglenni gwell sydd wedi ei greu ar gyfer Cymru, yng Nghymru ac sy'n ymwneud â phob agwedd ar fywyd Cymru, gan gynnwys ein diwylliant a'n treftadaeth. Datblygwyd partneriaethau pwysig yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae angen ymestyn hyn i gyrff eraill.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017

## DEDDFWRIAETH

- sicrhau bod sylfaen ddeddfwriaethol y Gymraeg yn addas ac yn gyfredol

Mae sawl darn o ddeddfwriaeth wedi eu pasio dros yr hanner canrif diwethaf sy'n ategu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, eu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, a chael gwasanaethau Cymraeg. Y diweddaraf o'r rhain yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ac er nad yw'r Mesur ynddo'i hun yn golygu bod rhagor o bobl yn siarad yr iaith, mae'n sylfaen gadarn i adeiladu at y dyfodol, gan ei bod yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, yn cyflwyno dyletswyddau drwy'r safonau iaith ar y sail ei bod yn cael ei chynnig yn rhagweithiol, ac yn caniatáu ymchwilio i unrhyw ymyrraeth ar ryddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae deddfwriaeth yn gosod sylfaen ddiamod i gyrff weithredu o blaid yr iaith ac i siaradwyr Cymraeg ei defnyddio. Mae angen ysgogi unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r hawliau hyn yn eu cynnig. Y nod hirdymor yw symud at sefyllfa lle mae'r hawliau hyn wedi eu gwreiddio fel rhan naturiol o wasanaethau.

Un o brif negeseuon y strategaeth hon yw bod angen i'r Gymraeg gael ei hystyried a'i phrif-ffrydio ym mhob cynllun, polisi a strategaeth ledled ystod o sefydliadau, yn ogystal ag wrth lunio deddfwriaeth, a bydd deddfwriaeth yn rhan o'r system sy'n sicrhau bod hynny'n digwydd.

Byddwn yn parhau i adolygu'r ddeddfwriaeth dros y cyfnod sydd i ddod er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr oes sydd ohoni, a'i bod yn atgyfnerthu hyder siaradwyr i ddefnyddio gwasanaethau.

DRAFFT - CYFRINACHOL 2017